Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch o galon i’r holl unigolion a sefydliadau hynny sydd wedi rhannu eu profiad a’u cyngor gyda ni, mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, trafodaethau anffurfiol mewn

---

<sup>1</sup> Mae *The Yale Book of Quotations* yn nodi bod y dyfyniad hwn wedi’i briodoli i Derek Bok, cyfreithiwr ac addysgwr o America, gan Paul Dickson, yn *The Official Rules* (1978), ond ei fod wedi ymddangos yn gynharach, heb ei briodoli i unrhyw unigolyn, yn y *Washington Post*, 6 Hydref, 1975.

amrywiaeth o ymweliadau, ymatebion i'n cais am dystiolaeth neu holiaduron. Hefyd, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymroddiad i'r ymchwiliad hwn.

## Argymhellion y Pwyllgor

---

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, i bwysleisio, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, fod y ddarpariaeth addysg ariannol yn bwysicach nag erioed, ac y dylid defnyddio cyllid fel y gellir cyflwyno gwasanaeth *Moneymadeclar* y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB) fesul cam. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Comisiynydd y Gymraeg (ar ôl i Fesur y Gymraeg sefydlu'r swydd) i ymgysylltu â darparwyr addysg ariannol, i'w hannog i sicrhau y darperir cyngor ar arian yn Gymraeg, yn ogystal ag mewn ieithoedd eraill. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo'n gyhoeddus y bydd yn ceisio sicrhau bod swyddogaeth strategol Uned Addysg Ariannol Cymru yn cael ei chynnal a'i datblygu i helpu i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu canolfan ganolog o wybodaeth am brosiectau gallu ariannol, a fyddai'n darparu canllawiau ar fonitro a gwerthuso wrth lunio a gweithredu prosiectau a gwasanaethau newydd. Rhagwelwn y byddai hyn hefyd yn cynnwys cyfeiriadur o adnoddau cyfredol sy'n cael eu hystyried yn addas i ysgolion eu defnyddio wrth ddarparu addysg ariannol. Rhagwelwn y byddai hyn yn hwyluso'r broses o rannu arferion da, a byddai hefyd yn galluogi ysgolion i nodi a meithrin cysylltiadau â darpar bartneriaid yn gyflym er mwyn darparu addysg ariannol yn eu hardaloedd lleol. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy fforymau fel y grŵp llywio cynhwysiant ariannol, ac ar y cyd â Llywodraeth y DU, yn annog sefydliadau ariannol i ddarparu cronfeydd i sefydliadau annibynnol fel y gallant gynnal rhaglenni addysg ariannol. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chyflogwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat i'w hannog i



hwyluso cyfranogiad eu gweithwyr cyflogedig mewn seminarau addysg ariannol yn y gweithle, ac wrth dderbyn adnoddau addysg ariannol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ledled Cymru i dynnu sylw at werth trawsbynciol mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol cyfredol. Rhagwelwn y byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o hyn, yn annog awdurdodau a chymdeithasau tai unigol i nodi unigolion sy'n gweithio ar lefel uwch fel rhai a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynhwysiant ariannol a'r gwaith ar addysg ariannol, ar draws yr awdurdod/y gymdeithas. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ariannol yn elfen orfodol o'r fframwaith ABCh, a'i bod yn adolygu'r pwyslais a roddir ar addysg ariannol yn rheolaidd. (Tudalen 40)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Estyn i ystyried a yw safonau'r addysg ariannol a ddarperir mewn ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth drwy asiantaethau allanol, yn cael eu hyrwyddo a'u monitro'n ddigonol. (Tudalen 46)

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal ymgyrch barhaus yn y cyfryngau i gynorthwyo pobl i ddeall manteision cynhwysiant ac addysg ariannol, a sut y gallant ddefnyddio gwasanaethau cymorth ac ariannol (gan gynnwys cyfrifon banc sylfaenol ac yswiriant cynnwys cartref) yn lleol, drwy weithio gyda rhanddeiliaid ar lefelau lleol a chenedlaethol. (Tudalen 47)

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â banciau'r stryd fawr er mwyn iddynt feithrin agwedd fwy cadarnhaol tuag at agor cyfrifon banc sylfaenol. (Tudalen 51)

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a gwasanaethau cyngor y trydydd sector i sicrhau dull rhagweithiol o alluogi pobl i fanteisio ar fudd-daliadau. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl y gwyddom sydd ag ôl-ddyledion rhent a/neu dreth gyngor yn cael eu cyfeirio at wybodaeth am y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, ond nad ydynt yn eu hawlio. (Tudalen 61)

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a Llywodraeth y DU i godi ymwybyddiaeth o fenthyca arian yn anghyfreithlon ac effaith niweidiol hyn ar deuluoedd a chymunedau. Fel rhan o hyn, rhagwelwn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod rôl amhrisiadwy Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru yn parhau ac yn cael ei datblygu. (Tudalen 63)

## Cyflwyniad

---

### Beth yw ‘cynhwysiant ariannol’ ac ‘addysg ariannol?’

*“Those individuals who are excluded know what it feels like if a bank has no interest whatsoever in serving that decile or quartile of society who really want emergency credit, quite often.”<sup>2</sup>*

- Cartrefi Cymunedol Cymru

1. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom ddiffiniadau amrywiol o’r termau ‘cynhwysiant ariannol’ ac ‘addysg ariannol’. Er enghraifft, dywedodd Shelter Cymru wrthym:

“some people might see financial inclusion as being a matter of how they can get more money, whereas others might see it as being a question of how they manage money when they have it.”<sup>3</sup>

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio cynhwysiant ariannol fel:

“bod gan bawb fynediad i amrywiaeth briodol o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, sy’n eu galluogi i reoli eu harian yn effeithiol, pa beth bynnag eu hincwm, eu statws cymdeithasol neu eu gallu. Er mwyn gwireddu cynhwysiant ariannol, mae angen cefnogaeth ar bobl i gael o leiaf rai sgiliau ariannol sylfaenol, a dylent wybod ychydig am gynnyrch a’u deall.”<sup>4</sup>

3. At ddibenion yr ymchwiliad hwn, rydym wedi ystyried mai ‘addysg ariannol’ yw’r cyfleoedd sydd gan bobl yng Nghymru i ennill sgiliau, hyder a gwybodaeth ariannol: i wneud penderfyniadau gwybodus am ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau ariannol, a rheoli eu harian.

### **Pam oeddem am gynnal ymchwiliad i gynhwysiant ariannol ac addysg ariannol?**

4. Wrth reswm, gall medru defnyddio gwasanaethau ariannol a rheoli arian yn effeithiol wneud gwahaniaeth i les materol person, ond mae cryn dystiolaeth hefyd i awgrymu y gall gael effaith gadarnhaol ar les

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Paragraff (Para) 12

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 70

<sup>4</sup> ‘Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru’, Llywodraeth Cymru

seicolegol ac emosiynol rhywun. Yn wir, dywedodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) wrthym:

“Some of the work that we have done on economic wellbeing suggests that, even if you hold income constant, you can nevertheless improve people’s psychological and material wellbeing by improving their financial capability... moving people from low levels of financial capability to average levels of financial capability can reduce anxiety and depression by between 7 per cent and 15 per cent.”<sup>5</sup>

5. Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant sy’n gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, mewn perthynas â Thai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant. Felly, roeddem yn credu bod ymchwiliad i strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru o fewn cylch gwaith ein Pwyllgor trawsbleidiol ac – o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni – yn arbennig o amserol.

### **Cylch gorchwyl**

6. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer cynnal ymchwiliad i ‘*Cynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol*’ ym mis Mawrth 2010:

- Ystyried a yw pobl o bob oedran mewn cymunedau drwy Gymru’n cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ennill a datblygu’r sgiliau, y wybodaeth a’r hyder sy’n ofynnol i wneud penderfyniadau doeth ynghylch cyllidebu, benthyca, yswiriant, cynilo a chynhyrchion ariannol eraill;
- Dynodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth addysg ariannol a dynodi enghreifftiau o arferion da y byddai modd eu lledaenu drwy Gymru;
- Archwilio rôl y sector statudol, y sector preifat a’r trydydd sector sy’n gweithio’n unigol ac ar y cyd i ddarparu a hyrwyddo addysg ariannol yn ein cymunedau;
- Ymchwilio a yw’r addysg ariannol a gaiff ei darparu yn briodol i anghenion ac amgylchiadau unigolion;

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Paragraffau 192 a 194.

- Asesu a wneir cysylltiadau effeithiol rhwng darparu addysg ariannol a darparu mynediad at wasanaethau ariannol;
- Archwilio sut y gall addysg ariannol effeithiol gyfrannu at gynyddu incwm a lleihau dyledion;
- Asesu pa mor effeithiol a phriodol yw polisi Llywodraeth Cymru ar allu ariannol a chynyddu incwm fel y nodir yn ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

### **Sut y gwnaethom gynnal yr ymchwiliad?**

7. Lanswyd cais am dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ym mis Mawrth 2010. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, ar 7 Mai 2010, roedd dros 30 o ymatebion wedi dod i law gan sefydliadau amrywiol o'r sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector a oedd â diddordeb yn y pwnc.

8. Hefyd, cyhoeddwyd holiadur gennym i gasglu tystiolaeth am brofiadau'r cyhoedd o gynhwysiant ariannol ac addysg ariannol, a oedd ar gael ar wefan y Pwyllgor a dosbarthwyd copi caled ohono i'r cyhoedd mewn digwyddiadau yn ystod yr haf. Llenwyd 57 o holiaduron yn ddiennw.

9. Hefyd, cymerwyd tystiolaeth lafar gennym ar gyfer yr ymchwiliad hwn mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol rhwng 22 Ebrill a 8 Gorffennaf 2010. Yn ystod y broses hon, cymerwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, gan gynnwys:

- y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol;
- Fforymau Gallu Ariannol;
- Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol Cymru, Adran Gwaith a Phensiynau y DU;
- Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chorff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB);
- Cymdeithas Undebau Credyd Prydain;
- Shelter Cymru;
- Cartrefi Cymunedol Cymru;
- Cyngor ar Bopeth Cymru;

10. Yn olaf, cynhaliwyd cyfres o ymweliadau canfod ffeithiau i amrywiaeth o brosiectau a oedd â'r nod o helpu i ddarparu addysg ariannol, gan gynnwys:

- Seminar yn y gweithle gan Gorff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB) y DU ar 'wneud y defnydd gorau o'ch arian' (yn Siop Wybodaeth Garnlydan)
- Ysgol yn cynnig cymwysterau IFS (Ysgol Gyllid y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol) (Ysgol y Berwyn)
- Ysgol a oedd wedi dechrau Undeb Credyd ar gyfer rhai a oedd yn cynilo am y tro cyntaf (Ysgol Bryn Gwalia mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf Bryn Gwalia ac Undeb Credyd Sir y Fflint Gyfan)
- Canolfan cyngor ar bopeth gyda phrofiad o ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach (Canolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe)

11. Y peth mwyaf trawiadol oedd ei bod yn ymddangos bod yr ymchwiliad yn arbennig o berthnasol i nifer o ymgynghoreion, gan ei fod wedi'i gynnal yn ystod amodau economaidd anodd. Yn benodol, croesawyd yr ymchwiliad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a ddywedodd:

“This is an important inquiry; it is important to the committee, but it is also important to the Welsh Assembly Government— financial inclusion is one of our strands, and we believe that it is extremely important.”<sup>6</sup>

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Para 100.

## Themâu Allweddol

---

12. Ar ôl cynnal ein hymchwiliad, gallwn yn awr gyflwyno cyfres o gasgliadau ac argymhellion ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cymru, a phobl eraill berthnasol. Mae crynodeb o'n hargymhellion ar dudalennau 7-9.

13. Roedd ein tystion yn cytuno y gallai camreoli arian, ac allgáu ariannol, gael effaith andwyol ar fywydau pobl. Er enghraifft, dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru ei fod yn bersonol wedi gweld yr effaith arswydus y gall camreoli arian ei gael ar bobl. Dywedodd ei fod yn achosi dadleuon ac i deuluoedd chwalu, a bod cyswllt cryf iawn rhwng dyled a salwch meddwl.<sup>7</sup>

14. Yn wir, crynhodd Llais Defnyddwyr Cymru bwysigrwydd rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl iddynt fel y gallant reoli eu harian yn dda. Dywedodd:

“Improving financial capability not only gives consumers the confidence to make informed financial decisions, it also helps them to feel better prepared for the financial impact of life-changing or unexpected events (e.g. having children, long-term illness-accidents, retirement, bereavement or job loss), and better equipped to cope with financial difficulties.”<sup>8</sup>

15. Er y cydnabuwyd nad oes gan nifer o bobl yng Nghymru sgiliau rheoli arian allweddol, cydnabuwyd bod nifer o bobl wedi ymaddasu nid yn unig i'w hamgylchiadau eu hunain, ond hefyd i'r rhwystrau a wynebant wrth geisio defnyddio gwasanaethau ariannol prif ffrwd, fel cyfrifon banc, yswiriant neu gredyd. Gwnaed y pwynt hwn gan Undeb Credyd Splotlands a ddywedodd:

“Often, people with poor financial skills and literacy have in fact developed highly sophisticated coping mechanisms which in large part operate outside of mainstream provision.”<sup>9</sup>

16. Wrth ystyried y materion hyn, rydym wedi nodi 4 thema allweddol a gododd yn ystod ein hymchwiliad, ac maent yn cael eu hystyried yn y penodau isod:

---

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 4

<sup>8</sup> CC(3) FI 14

<sup>9</sup> CC(3) FI 17

- Cyfleoedd ar gyfer Addysg Ariannol
- Cynhwysiant Ariannol - defnyddio gwasanaethau ariannol
- Stigma
- Cynyddu Incwm a Lleihau Dyledion



## 1. Cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol

---

17. Awgrymodd tystiolaeth ein hymchwiliad fod nifer o bobl yn parhau i ddysgu am sgiliau rheoli arian y ffordd galed, drwy wynebu profiad o fynd i orddyled.<sup>10</sup>

18. Yn wir, dywedodd nifer o ymatebwyr i'n holiadur eu bod wedi cael eu haddysg ariannol drwy brofiadau bywyd, gan ddysgu'r ffordd galed ar ôl wynebu profiadau poenus.<sup>11</sup>

19. Fodd bynnag, nododd ein tystion hefyd nifer o gyfleoedd posibl ar gyfer cael addysg ariannol, gan gynnwys:

- Darpariaeth drwy leoliadau cymunedol
- Darpariaeth drwy leoliadau addysgol
- Darpariaeth drwy ymgyrch yn y cyfryngau

### **Darpariaeth drwy leoliadau cymunedol**

#### ***Prosiectau cadarnhaol yn y gymuned***

20. Darparwyd sawl enghraifft o brosiectau sy'n llwyddo i ddarparu addysg ariannol yn y gymuned yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y Pwyllgor, a oedd yn aml yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau statudol, preifat a gwirfoddol. Cyfeirir at rai o'r prosiectau hyn isod:

#### *Cyngor ar reoli arian*

21. Cyfeiriodd nifer o'n hymgyngoreion at waith Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru ym meysydd addysg ariannol a chyngor ar ddyledion. Bu 20 o ganolfannau'n ymwneud â gwaith ar allu ariannol yn ystod 2009-10, a oedd yn cynnwys sesiynau un-i-un, gwaith grŵp a sesiynau ar gyfer gweithwyr rheng flaen sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed.

22. Yn ystod ymweliad rapporteur â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe, clywodd Bethan Jenkins AC, un o aelodau'r Pwyllgor, hefyd fod gwasanaethau rheoli arian CFEB wedi'u cyfuno â gwasanaeth cyngor ffôn y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, 'Llinell Gyngor Cymru'.

---

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 7

<sup>11</sup> Ymatebion i holiadur y Pwyllgor.

Diben hyn oedd rhoi mwy o ddewis i'r cleient o ran cymorth gyda dyledion.<sup>12</sup>

23. Hefyd, darparodd CFEB dystiolaeth sylweddol ar y cyfleoedd sydd ar gael ledled Cymru i bobl wella eu gallu ariannol. Yn benodol, cyfeiriodd at ei wasanaeth *Moneymadeclear* sydd ar gael ar y ffôn, ar-lein ac wyneb-yn-wyneb ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful.

24. Dywedodd CFEB ei fod yn credu y byddai gwasanaeth wyneb-yn-wyneb ar gael ledled Cymru erbyn Gwanwyn 2011. Cyfeiriodd nifer o ymgynghoreion at *Moneymadeclear*, ac roedd teimlad bod ei elfen wyneb-yn-wyneb yn ddatblygiad pwysig iawn. Dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

“Face to face services not only help us to build up a degree of trust between the client and advice provider, they also enable the adviser to gain a better understanding of a person’s personal circumstances.”<sup>13</sup>

25. Mynegodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gefnogaeth hefyd i ddarparu cyngor o'r fath, gan ddweud:

“CFEB as an integrated part of the Assembly Government’s proposals regarding a strategy for taking this programme forward together. I have been very impressed by the work that CFEB does. There are many examples of how we work together. We recognise CFEB’s money guidance service. It delivers the programme, and we have used it at our offices in Merthyr Tydfil. This has been a joint operation: we have given our services and the CFEB has given its services. I mentioned earlier how we integrate those services in our most vulnerable communities. We have engaged with our Communities First partnerships in Merthyr Tydfil and Blaenau Gwent as a first example of that process, in our Merthyr Tydfil office; specifically, I am talking about how they can roll out

---

<sup>12</sup> CC(3) AWE 09 Nodyn ar ymweliad yr Aelodau â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe

<sup>13</sup> CC(3) FI 14

‘Moneymadeclear’. We are trying to look at this holistically and to share best practices.”<sup>14</sup>

26. Fodd bynnag, roedd CFEB hefyd yn cydnabod y gallai’r hinsawdd ariannol sydd ohoni o bosibl oedi’r gwaith o gyflwyno’r gwasanaeth *Moneymadeclear* hwn. Dywedodd:

“with the change in circumstances in Government in the UK, there will be a pause in the process of gaining certainty about whether we will be able to roll out face-to-face provision as quickly as we would have liked. I am still confident that we will be able to do it, but I ought to not mislead the committee into thinking that we will be able to drive ahead at the speed at which we had hoped.”<sup>15</sup>

27. Rydym yn pryderu, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gyda phwysau cynyddol ar gronfeydd cyhoeddus, mai’r gwasanaethau nad ydynt wedi’u darparu eto fydd y rhai cyntaf i gael eu diddymu. Fodd bynnag, credwn fod y ddarpariaeth addysg ariannol yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, o ystyried na fydd nifer o bobl yn cael unrhyw gynnydd yn eu hincwm yn y blynyddoedd nesaf. Credwn felly ei bod yn hollbwysig bod y gwasanaeth *Moneymadeclear* yn cael ei roi ar waith fesul cam ym mhob cwr o Gymru, heb oedi na thoriadau.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, i bwysleisio, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, fod y ddarpariaeth addysg ariannol yn bwysicach nag erioed, ac y dylid defnyddio cyllid fel y gellir cyflwyno gwasanaeth *Moneymadeclear* CFEB fesul cam.**

28. Er nad yw’n darparu addysg ariannol yn uniongyrchol, gwasanaeth wyneb-yn-wyneb arall y cyfeiriodd nifer o dystion ato oedd Cronfa Cynhwysiant Ariannol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, sy’n darparu cyngor wyneb-yn-wyneb ar ddyledion drwy nifer o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwelodd y Canolfannau Cyngor ar Bopeth 7,155 o gleientiaid drwy’r Gronfa Cynhwysiant Ariannol.

---

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Para 113

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 178

## *Dysgu yn y gweithle*

29. Ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, roedd gwasanaeth *Moneymadeclar* CFEB yn gysylltiedig â'i waith cyfredol drwy'r DU yn darparu seminarau yn y gweithle ar 'Wneud y Defnydd Gorau o'ch Arian'. Mae'r seminarau hyn wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer anghenion pob grŵp o weithwyr cyflogedig.

30. Mae'r rhaglen yn cynnwys seminarau awr o hyd, a ddarperir gan gyflwynwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig ac sy'n rhoi sylw i gynllunio ariannol a chyllidebu, benthyca (hirdymor a thymor byr), yswiriant, cynilo a buddsoddi a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.<sup>16</sup> Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ymysg y gweithleoedd niferus sydd wedi elwa ar y sesiynau hyn.

31. Cyfeiriodd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain at seminarau o'r fath hefyd, gan ddisgrifio sut y cyfrannodd rhai o'i hundebau llafur, a oedd wedi'u sefydlu o fewn y gweithleoedd hynny, yn helaeth at y rhaglen honno o ran cynnal sesiynau amser cinio am tua hanner awr i awr.<sup>17</sup>

32. Arsylwodd dau Aelod o'r Pwyllgor, Alun Davies AC a Mohammed Asghar AC, ar un seminar o'r fath yn cael ei darparu, yn Siop Wybodaeth Garnlydan. Dywedodd un cyfranogwr ar ôl y seminar:

"I thought it was very good... interactive and personal. We get literature through sometimes, but you know how it is... you don't make that connection with yourself, and you sometimes just put it to one side, as you don't necessarily have the time to read it. I've signed up for me and my wife to meet with the money-guide as there are a few things we can probably improve on, and hopefully save some money."<sup>18</sup>

33. Hefyd, disgrifiodd CFEB sut y mae'n ceisio targedu ei wasanaethau cyngor at gyfnodau tyngedfennol penodol ym mywydau pobl, gan ddweud:

"we have programmes in colleges and universities for those young people not in education, employment or training, and

---

<sup>16</sup> CC(3) FI 22

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 41

<sup>18</sup> CC(3) AWE 03, Nodyn ar ymweliad rapporteur Aelodau â Siop Wybodaeth Garnlydan.

for young parents. Virtually every new parent in the UK—1.3 million of them—now receives the parent’s guide to money. When people are facing redundancy or are about to retire, those are key stages in people’s lives.”<sup>19</sup>

34. Credwn fod seminarau o’r fath yn ddull gwerthfawr iawn o ddarparu addysg ariannol, er ein bod yn pryderu bod yn rhaid i gyflogwyr hwyluso a chroesawu trafodaethau o’r fath er mwyn iddynt fod yn effeithiol. Rydym wedi ystyried y mater hwn ymhellach yn yr is-bennod ganlynol: bylchau mewn darpariaeth.

#### *Cyfranogiad y sector preifat*

35. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Barclays, a chyfeiriodd sawl tyst at ei raglen Money Skills yn benodol fel enghraifft gadarnhaol o gyfranogiad y sector preifat. Dywedodd Barclays fod Money Skills yn rhaglen sy’n helpu pobl ddifreintiedig sy’n anodd eu cyrraedd i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol a doeth ynghylch cyllidebu, gwario, cynilo, buddsoddi a defnyddio arian credyd mewn ffordd gyfrifol. Dywedodd hefyd:

“This will help them to improve their understanding of the implications of choices they make, become confident and knowledgeable consumers and aware of their responsibilities and rights.”<sup>20</sup>

36. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Rathbone Cymru hefyd ei fod yn darparu cyrsiau Money Skills Barclays a ddylai fod o fudd i tua 3,000 o bobl ifanc yng Nghymru.<sup>21</sup>

37. Yn yr un modd, soniodd Gyrfa Cymru y Gogledd Ddwyrain am y gwaith y mae’n ei wneud gyda gwirfoddolwyr Debtcred,<sup>22</sup> staff Marks and Spencer Money, a’r Bank of America i ddarparu gwersi llythrennedd ariannol mewn ysgolion. Nodwyd bod hon yn enghraifft gadarnhaol o’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gweithio gyda’i gilydd i ddarparu addysg ariannol.

38. Rydym yn croesawu cyfranogiad y sector preifat (a sectorau eraill) at y gwaith o ddarparu addysg ariannol. Fodd bynnag, credwn hefyd ei

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 155

<sup>20</sup> CC(3) FI 11

<sup>21</sup> CC(3) FI 01

<sup>22</sup> Elusen genedlaethol yw Debtcred a gyllidir gan Swyddfa’r Uchel-Siryf.

bod yn bwysig sicrhau bod effaith ymgysylltu o'r fath yn cael y dylanwad mwyaf posibl drwy gynllunio a chydlynu strategol, mater a ystyrir yn fanylach yn yr is-bennod ganlynol.

### *Cyfranogiad cymdeithasau tai*

39. Roedd nifer o bobl o fewn y sector tai a'r tu allan iddo yn cydnabod rôl cymdeithasau tai wrth hwyluso addysg ariannol a mynd i'r afael ag allgáu ariannol. Nodwyd fod gan 16 o gymdeithasau eu strategaethau cynhwysiant ariannol eu hunain<sup>23</sup> a bod nifer ohonynt yn cyfrannu at rwydweithiau ehangach o randdeiliaid a oedd â diddordeb cyffredin mewn hyrwyddo cynhwysiant ariannol, fel y ddau Fforwm Gallu Ariannol.

40. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Tai Clwyd Alun ei bod wedi cyfrannu at Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol Gogledd Cymru ac wedi darparu hyfforddiant i staff mewn swyddi a oedd yn dod i gyswllt â chwsmeriaid.<sup>24</sup> Mae hyfforddiant tebyg i staff wedi'i ddarparu ar draws y sector.

41. Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) yw'r corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi Swyddog Cynhwysiant Ariannol gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru. Nododd CCC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig mai un o ddyletswyddau'r swyddog hwn yw cynyddu llythrennedd ariannol ymysg tenantiaid.

42. Un o'r datblygiadau pwysicaf yn y sector tai oedd sefydlu Moneyline Cymru, Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDC), gan gymdeithasau tai yng Nghymru. Datblygwyd hwn yn arbennig er mwyn darparu benthyciadau fforddiadwy ac ymateb i'r ffaith bod tenantiaid cymdeithasau tai yn defnyddio benthycwyr carreg drws.

---

<sup>23</sup> CC(3) FI 30

<sup>24</sup> CC(3) FI 25

### *Bylchau mewn darpariaeth*

43. Fel y nodwyd yn yr is-bennod flaenorol, rhoddodd ein tystion nifer o enghreifftiau cadarnhaol i ni o addysg ariannol yn cael ei darparu mewn lleoliadau cymunedol.

44. Fodd bynnag, awgrymodd y dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn fod amrywiaeth mawr yn y ddarpariaeth addysg ariannol sydd ar gael ledled Cymru. Yn wir, disgrifiodd tystion ac ymgylgoreion amrywiol y ddarpariaeth fel un dameidiog,<sup>25</sup> cyfyngedig,<sup>26</sup> a gwasgarog, ysbeidiol ac anghyson.<sup>27</sup>

45. Dywedwyd bod y ddarpariaeth yn dameidiog o ran cwmpas daearyddol Cymru, mewn perthynas â grwpiau cymdeithasol penodol (fel pobl anabl, a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg) ac mewn perthynas â'r bobl hynny nad ydynt yn cael eu 'targedu' oherwydd nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhan o grŵp cymdeithasol agored i niwed amlwg. Mynegwyd pryderon hefyd fod y ddarpariaeth yn dameidiog oherwydd bod diffyg cydgysylltu addysg ariannol yn strategol.

### *Bylchau mewn darpariaeth ddaearyddol*

46. Thema gyson drwy'r dystiolaeth oedd bod yr addysg ariannol sydd ar gael a'r cyfleoedd ar gyfer cael addysg ariannol o'r fath yn amrywio o un ardal ddaearyddol i'r llall. Mynegwyd y farn hon gan Katija Dew, o Dîm Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol yr Adran Gwaith a Phensiynau, a ddywedodd fod cyfleoedd lleol yn dibynnu i raddau helaeth ar yr asiantaethau ar lawr gwlad, eu hymroddiad, eu cyrhaeddiad a'u gallu.<sup>28</sup> Eglurodd, mewn dystiolaeth lafar:

“you have to rely on having what I call, ‘certain ingredients’ in that locality to work with. For example, you need an advice agency that is very keen to work on this agenda and that has the capability and resource to do so. You also need a credit union to work around the table and to be a part of that. There are also Communities First interventions to consider and so on.

---

<sup>25</sup> CC(3) FI 05

<sup>26</sup> CC(3) FI 06

<sup>27</sup> CC(3) FI 12

<sup>28</sup> CC(3) FI 08

So, local intervention is patchy, and that is down to resources, volition and understanding and so on.”<sup>29</sup>

47. Hefyd, dywedodd Cyngor Ar Bopeth Cymru:

“of our 31 member bureaux, 19 have been involved in financial capability work. I must say that the others are not involved not because they do not want to be, but because they do not have the funding to do it. For example, we are engaged with Barclays Bank plc, which funds the Horizons project, which provides financial education specifically to lone parents. That is one of the projects happening in Cardiff. That sounds wonderful, but it is happening in only two places in Wales. So, you have to remember that, although all of these things are happening, they are happening in restricted areas... there is work being done in Cardiff and other places around lone parents, funded by Barclays, but there are other parts of Wales where we are not able to deliver to lone parents because we do not have the capacity. So, although some of them are getting assistance, which is proving to be incredibly valuable for them, in other places that is not the case.”<sup>30</sup>

48. Yn yr un modd, amlygodd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn fod gwaith pwysig yn cael ei wneud ym maes addysg ariannol drwy ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gyda Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn nodi bod nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig gwasanaeth cyfeirio at wasanaethau gallu ariannol. Fodd bynnag, roedd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn pryderu nad yw'r rheini sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd hyn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn gallu manteisio ar gymorth o'r fath.

*Bylchau mewn darpariaeth - unigolion nad ydynt wedi'u targedu*

49. Awgrymodd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn hefyd y byddai'r addysg ariannol sydd ar gael, i ryw raddau, yn dibynnu hefyd ar a yw unigolyn yn cydweddu â grŵp cymdeithasol neu ddemograffig sydd wedi'i nodi fel un y mae angen addysg ariannol wedi'i thargedu arno.

50. Rhoddwyd sawl enghraifft o grwpiau a oedd wedi'u targedu drwy'r dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys rhieni sengl, pobl hŷn,

---

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 31.

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Paragraffau 96 a 100



pobl nad ydynt mewn cyflogaeth a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, mynegodd amrywiaeth eang o dystion bryderon fod hyn yn golygu y gallai unigolion **nad** ydynt mewn grwpiau cymdeithasol neu ddemograffig sy'n cael eu targedu ar gyfer addysg ariannol golli'r cyfle i gael cymorth o'r fath. Dywedodd Shelter Cymru:

“Community voluntary organisations are running some of the financial education projects. These are only likely to be accessed by those already receiving a service from these organisations, so the opportunity is not really there for the general public.”<sup>31</sup>

51. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor i ategu'r honiad hwn, nododd Shelter Cymru rai enghreifftiau o waith sydd ar y gweill ganddo ledled Cymru sy'n awgrymu nad oes gan nifer o bobl y sgiliau na'r ymwybyddiaeth ariannol a fyddai'n helpu i atal sefyllfaoedd ariannol anodd rhag datblygu'n argyfwng. Dywedodd Shelter Cymru fod hon yn broblem benodol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, oherwydd ei fod yn gweld newid ym mhroffil y cleient, yn sgil y problemau ariannol presennol. Dywedodd hefyd:

“People who have been employed for 30 years who have never had a problem or an issue are now coming to us. They might not, perhaps, be aware of where to seek help, nor are they in groups that are targeted for support or campaigns, so they may not seek assistance until they get to the court stage or they get to some crisis, because they are living in their homes and are not classed as a vulnerable group. However, when you are hit by a crisis like this, you become vulnerable. You might not have been vulnerable before, but you are seen as being so now.”<sup>32</sup>

52. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru:

“some people do not fit into any particular group that has been chosen and therefore do not get their financial education. Work is being done at the moment, as part of our financial inclusion fund face-to-face debt advice, around ensuring that, when people come to us for debt advice, part of what you give them as an individual is also some financial education. Some of the

---

<sup>31</sup> CC(3) F112

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 131

work that we do, which relates to financial capability but is not group work, potentially gives you a chance to pick up those people who do not fit into anyone else's group or the groups that we are already delivering to, if we could only get funding to do it."<sup>33</sup>

53. Yn wir, awgrymodd ymatebwyr i'n holiadur fod y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif o bobl yn dioddef problemau rheoli ariannol. Mynegodd sawl un o'r ymatebwyr bryderon ei bod yn haws mewn gwirionedd i bobl nad ydynt yn dlawd wastraffu arian.<sup>34</sup>

54. Fodd bynnag, tra bod Katija Dew yn cydnabod y gallai darparu addysg ariannol ar gyfer rhai grwpiau penodol olygu bod rhai yn cael eu colli rhwng y bylchau, dadleuodd fod targedu'n gallu bod yn effeithiol iawn ar gyfer y rheini sy'n cael eu cynorthwyo gan eu bod yn ymgysylltu mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion a'u cymhellion.<sup>35</sup>

55. Yn wir, roedd nifer o dystion yn croesawu dull CFEB o dargedu addysg ariannol ar adegau allweddol mewn bywyd. Mae CFEB yn credu bod hyn yn ei alluogi i ymyrryd ar adegau allweddol mewn bywyd pan fo gwybodaeth ac addysg ariannol yn fwyaf gwerthfawr, gyda gwybodaeth sydd wedi'i theilwra ar gyfer sefyllfa'r unigolyn.<sup>36</sup>

56. Defnyddiodd Cyngor Sir Ddinbych ddull tebyg, a nododd fod pob un o'i asesiadau Hawliau Lles a chyngor ar ddyledion wedi'u teilwra ar gyfer anghenion unigol yr unigolyn.<sup>37</sup>

57. Gan gydnabod bod dull sydd wedi'i dargedu'n gyfan gwbl yn golygu bod perygl y bydd pobl yn cael eu colli drwy'r bylchau, dywedodd CFEB wrth y Pwyllgor fod ei ymdrechion sydd wedi'u targedu yn cael eu hategu gyda mwy o waith prif ffrwd. Nododd y gall sefydliadau lleol sy'n ymgysylltu â'i waith sicrhau mynediad ehangach i'w adnoddau. Dywedodd:

“Those organisations that are known and trusted in their communities then sign-post people into our resources or

---

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 103

<sup>34</sup> Ymateb i holiadur y Pwyllgor. Nododd 57.1% o'r ymatebwyr eu bod wedi profi problemau ariannol.

<sup>35</sup> CC(3) FI 08

<sup>36</sup> CC(3) FI 22

<sup>37</sup> CC(3) FI 24

indeed provide them directly, such as midwives providing the Parent's Guide to Money."<sup>38</sup>

58. Yn wir, awgrymodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad i bawb a thargeddu rhai o'r grwpiau agored i newid hynny gyda'r nifer gyfyngedig o adnoddau sydd ganddynt. Dywedodd hefyd:

"We also link in with the times of life when financial circumstances change, such as retirement or redundancy, and so on. We can, therefore, pinpoint people who are affected by different financial challenges... we try to strike a balance between what information is given to people and to whom it is given, and how effective that process is... there are markers in life that change financial needs. Having a baby, leaving education, experiencing divorce, and facing retirement are all points in someone's life where their financial challenges change. The work of CAB, CFEB and other organisations gives an opportunity to support people who need that support, but we also need to broaden our horizons with regard to general financial literacy in schools, education for people with learning difficulties and so on. That is the fine balance in which we find ourselves."<sup>39</sup>

*Bylchau mewn darpariaeth – grwpiau cymdeithasol penodol*

59. Awgrymodd tystion hefyd fod nifer o grwpiau cymdeithasol penodol a allai elwa ar addysg ariannol sy'n cael ei dargedu'n well. Yn wir, cyfeiriodd y Gymdeithas Gristnogol Menywod Ifanc (YWCA) at y cam gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i gynnal arolwg o'r anghenion cynhwysiant ariannol penodol sydd gan grwpiau penodol.<sup>40</sup>

60. Mynegodd amrywiaeth o dystion, gan gynnwys Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (ECPNC), bryder am ddiffyg darpariaeth cyngor ar arian yn y Gymraeg neu, yn wir, mewn ieithoedd eraill.<sup>41</sup> Yn benodol,

---

<sup>38</sup> CC(3) AWE 07 CFEB yn dilyn sesiwn dystiolaeth ar 20 Mai

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Paragraffau 117-123

<sup>40</sup> CC(3) FI 21

<sup>41</sup> CC(3) FI 09

roedd CFEB yn cydnabod diffygion yn ei wasanaethau ei hun ar gyfer **siaradwyr Cymraeg**. Dywedodd:

“We recognise that one of the gaps in the CFEB delivery of financial capability is that not all of our resources are currently available in Welsh. CFEB is currently working on ensuring our resources are available in Welsh and we will work closely with the Welsh Language Board to ensure this is done as appropriately and as quickly as possible over the next year, including developing a Welsh Language Scheme for CFEB.”

61. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Llywodraeth Cymru bod Uned Addysg Ariannol Cymru (WFEU) eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r sector gwasanaethau ariannol i sicrhau bod mwy o'i ddeunydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn croesawu'r gwaith hwn, ac yn ymwybodol y gall Mesur Arfaethedig y Gymraeg<sup>42</sup> hefyd roi llais cryf ac annibynnol i'r iaith Gymraeg drwy sefydlu Comisiynydd y Gymraeg fel hyrwyddwr ac eiriolwr amlwg ar gyfer yr iaith. Credwn y gall Comisiynydd y Gymraeg – ar ôl i'r swydd gael ei sefydlu – fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo WFEU i weithio gyda'r sector gwasanaethau ariannol i sicrhau bod mwy o'i ddeunydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Comisiynydd y Gymraeg (ar ôl i Fesur y Gymraeg sefydlu'r swydd) i ymgysylltu â darparwyr addysg ariannol, i'w hannog i sicrhau y darperir cyngor ar arian yn Gymraeg, yn ogystal ag mewn ieithoedd eraill.**

62. Amlygodd Age Cymru (Help the Aged ac Age Concern gynt) y problemau penodol a oedd yn wynebu **pobl hŷn**, gan gynnwys rhwystrau oedran amlwg i gynnyrch ariannol penodol, fel yswiriant teithio a modur.

63. Amlygodd Scope yr anawsterau y gall **pobl anabl** eu hwynebu, yn enwedig mewn perthynas â'r system fudd-daliadau. Nododd fod prosiect penodol wedi'i sefydlu yn Nhor-faen sy'n darparu addysg ariannol i bobl o bob oedran.<sup>43</sup> Croesawodd Scope y ffaith bod

---

<sup>42</sup> Cyflwynwyd Mesur Arfaethedig y Gymraeg gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ar 4 Mawrth 2010. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn, roedd y Mesur yn cael ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

<sup>43</sup> CC(3) FI 27

anabledd yn cael ei gydnabod fel ffactor perthnasol i gynhwysiant ariannol o fewn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, ond awgrymodd fod nifer y bobl anabl sy'n cael addysg ariannol yn isel.<sup>44</sup>

64. Cyfeiriodd Les Cooper, cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru, yn ogystal â Llais Defnyddwyr Cymru, at y mater o sicrhau bod y rheini **nad oes ganddynt sgiliau sylfaenol** hefyd yn gallu cael addysg ariannol. Ym marn Les Cooper, nid yw'r adnoddau a'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynyddu gallu ariannol yn mynd i'r afael â'r heriau sgiliau sylfaenol sydd gennym yng Nghymru.<sup>45</sup> Fodd bynnag, mewn ymateb i'w bryder, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

“Drwy waith dan arweiniad Uned Sgiliau Sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae darparwyr dysgu wedi cael mynediad i adnoddau addysgu i wella gallu ariannol dysgwyr â sgiliau sylfaenol gwael.”<sup>46</sup>

65. Awgrymodd Llais Defnyddwyr Cymru y dylid targedu elfen wyneb-yn-wyneb y gwasanaeth *Moneymadeclear*, i gychwyn o leiaf, at deuluoedd incwm isel, **pobl ifanc** a grwpiau agored i niwed eraill wrth iddo gael ei ehangu i bob cwr o Gymru.

66. Amlygodd Llais Defnyddwyr Cymru anawsterau penodol a allai wynebu'r **rheini yn y system ofal**. Dywedodd:

“children and young people’s experiences of money matters at home and school will vary considerably. Children within the care system are likely to be particularly disadvantaged in this area. The instability caused by moving in and out of care placements, often leading to them changing schools on a regular basis, can mean they often miss out on the opportunities other children have to learn about money matters.”<sup>47</sup>

67. Aeth Llais Defnyddwyr Cymru ymlaen i ddweud ei fod yn cynnal ymchwil benodol i allgáu ariannol ymysg **pobl ifanc sy'n gadael gofal**, y mae disgwyl iddi gael ei chwblhau yn gynnar yn 2011.

---

<sup>44</sup> CC(3) FI 27

<sup>45</sup> CC(3) FI 03

<sup>46</sup> CC(3) AWE 08 Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn dilyn ymlaen o faterion a godwyd mewn sesiwn dystiolaeth ar 8 Gorffennaf

<sup>47</sup> CC(3) FI 14

68. Pwysleisiodd YWCA bwysigrwydd gwasanaethau i helpu menywod gan ei bod yn teimlo y byddai'r sefyllfa economaidd yn effeithio'n anghymesur ar **fenywod**. Dywedodd:

“women are more likely to be poor, earn less, work in low paid employment and have the highest risk of financial problems... We think that current financial education provision does not always take into account the specific financial inclusion barriers faced by girls and women.”<sup>48</sup>

69. Yn wir, mynegodd Bethan Jenkins AC bryderon am y ddarpariaeth addysg ariannol i **fenywod sy'n gweithio ar y stryd**, gan ddweud bod ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe yn dangos nad yw menywod sy'n gweithio ar strydoedd Cymru yn cael y cymorth hwnnw.<sup>49</sup>

*Bylchau mewn darpariaeth oherwydd diffyg cydgysylltu strategol*

70. Awgrymodd nifer o dystion fod bylchau yn y ddarpariaeth addysg ariannol yn y gymuned oherwydd diffyg cydgysylltu strategol. Er enghraifft, awgrymodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr nad oedd gwasanaethau cyfredol wedi'u cydgysylltu'n ddigonol.<sup>50</sup> Roedd Scope yn rhannu'r pryderon hyn a nododd fod angen cydgysylltu â'r sectorau amrywiol sy'n darparu addysg ariannol mewn modd strategol.<sup>51</sup>

71. Awgrymodd tystion fod gan CFEB a Llywodraeth Cymru swyddogaeth glir ar **lefel genedlaethol** wrth gydgyssylltu'r ddarpariaeth addysg ariannol yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

“there is a role for the Welsh Assembly Government to co-ordinate the financial capability work being delivered at the local level to ensure appropriate links are made between local and national programmes.”<sup>52</sup>

72. Roedd nifer o dystion o'r farn bod sefydlu WFEU yn gam gwerthfawr ar y llwybr i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r

---

<sup>48</sup> CC(3) FI 21

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Para 124

<sup>50</sup> CC(3) FI 05

<sup>51</sup> CC(3) FI 27

<sup>52</sup> CC(3) FI 14

swyddogaeth hon, er i Lais Defnyddwyr Cymru fynegi pryderon.  
Dywedodd:

“the future role and funding of the Unit is uncertain after April 2011. We would urge that the Committee recommend that the strategic role of this Unit is sustained and built on over the coming years to help improve the delivery of financial education both in schools and within the wider community.”<sup>53</sup>

73. Rydym yn croesawu gwaith gwerthfawr WFEU, a gafodd ganmoliaeth gan nifer o'n tystion. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, credwn ei bod yn hollbwysig bod gwaith yr uned yn cael ei gynnal a'i ddatblygu i gynnwys gwella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion ac yn ehangach yn y gymuned.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo'n gyhoeddus y bydd yn ceisio sicrhau bod swyddogaeth strategol Uned Addysg Ariannol Cymru yn cael ei chynnal a'i datblygu i helpu i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.**

74. Awgrymodd Katija Dew hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ategu gwaith WFEU drwy ddarparu canolfan ganolog o wybodaeth am brosiectau gallu ariannol, i gyd-fynd â gwaith y fforymau gallu ariannol o rannu arferion da. Dywedodd nad oes system ganolog ar gyfer rhannu arferion da ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd:

“The financial inclusion champions team that I described is a small team, and we share good practice between ourselves. We seek to replicate good practice that we see in the south up in the north, and vice versa. However, there is no official system.”<sup>54</sup>

75. Yn wir, dywedodd fod diffyg systemau ar gyfer monitro'r ddarpariaeth addysg ariannol yn golygu ei bod yn anodd gwerthuso pa ddulliau sy'n effeithiol. Dywedodd hefyd:

---

<sup>53</sup> CC(3) FI 14

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 17

“By definition monitoring and evaluation of this kind of activity is very difficult and needs to be undertaken on a longitudinal basis to be most effective.”<sup>55</sup>

76. Rydym yn cytuno y byddai sefydlu pwynt gwybodaeth canolog ar y prosiectau addysg a gallu ariannol sydd eisoes ar waith yng Nghymru yn ffordd ddefnyddiol o hwyluso'r broses o rannu arferion da. Fel y nodwyd yn yr is-bennod ganlynol (darpariaeth drwy leoliadau addysg), credwn hefyd y gallai adnodd o'r fath fod yn ddefnyddiol i helpu ysgolion i nodi darpar bartneriaid i'w cynorthwyo i ddarparu addysg ariannol, a gallai helpu ysgolion i bennu adnoddau cyfredol priodol ar gyfer darparu addysg ariannol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu canolfan ganolog o wybodaeth am brosiectau gallu ariannol, a fyddai'n darparu canllawiau ar fonitro a gwerthuso wrth lunio a gweithredu prosiectau a gwasanaethau newydd. Rhagwelwn y byddai hyn hefyd yn cynnwys cyfeiriadur o adnoddau cyfredol sy'n cael eu hystyried yn addas i ysgolion eu defnyddio wrth ddarparu addysg ariannol. Rhagwelwn y byddai hyn yn hwyluso'r broses o rannu arferion da, a byddai hefyd yn galluogi ysgolion i nodi a meithrin cysylltiadau â darpar bartneriaid yn gyflym er mwyn darparu addysg ariannol yn eu hardaloedd lleol.**

77. Cyhoeddwyd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009, a chafodd groeso ar y cyfan gan dystion yn eu tystiolaeth, ond roeddent, serch hynny, yn credu ei bod yn dal yn rhy gynnar i werthuso ei heffeithlonrwydd. Fodd bynnag, y farn oedd bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gydgyssylltu ei pholisïau ei hun er mwyn sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei darparu a bod cynhwysiant ariannol yn cael ei hyrwyddo. Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru wedi:

“gweithio gyda CFEB ar ddatblygu ein Strategaeth ar Gam-drin Domestig ‘Yr Hawl i fod yn Ddiogel’ sy'n amlygu pwysigrwydd gwella gallu ariannol pobl sy'n dioddef cam-drin domestig. O ganlyniad i hyn, mae Cyfarwyddyd Ariannol eisoes yn cael ei

---

<sup>55</sup> CC(3) FI 08



gynnig i siopau un stop Cam-drin Domestig Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.”<sup>56</sup>

78. Roedd ymchwilyr o Brifysgol Abertawe yn canmol y strategaeth hefyd am ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Dywedasant:

“The policy is clearly correct to focus on locally shaped initiatives drawing on the communally sensitive, context rich experiences and expertise of those involved in, for example, Credit Unions.”<sup>57</sup>

79. Ar nodyn mwy beirniadol, teimlai YWCA y dylai'r strategaeth fod wedi canolbwyntio mwy ar fenywod a merched, gan ddweud yr hoffai fod wedi gweld mwy o bwyslais ar ferched a menywod yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ac mewn gweithgareddau addysg ariannol.<sup>58</sup> Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â sut y byddai'r broses o gyflenwi'r strategaeth yn cael ei monitro, gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn dweud bod y rhan hon o'r strategaeth ychydig yn wan gyda llinellau sylfaen yn cael eu trafod ond nid yn cael eu sefydlu.<sup>59</sup>

80. Awgrymodd tystion hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ymgymryd yn fwyfwy â'r gwaith o gydgyssylltu ymgysylltiad y sector preifat ag addysg ariannol, o gofio mai cynyddu y byddai'r pwysau ar gronfeydd cyhoeddus yn y dyfodol. Argymhellodd Katija Dew, er enghraifft, y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n fwy â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflenwi eisoes gan y sector preifat. Dywedodd hefyd:

“For example, some banks/building societies provide resources to support this agenda e.g. Nationwide's 'Education Resource' and Barclays' 'MoneySkills. In tandem, pull together publicly funded initiatives such as those on digital inclusion, one-stop-shops, domestic violence, Communities First, housing, spatial plans with financial inclusion to provide substantial synergies.”<sup>60</sup>

---

<sup>56</sup> CC(3) FI 30

<sup>57</sup> CC(3) FI 07

<sup>58</sup> CC(3) FI 21

<sup>59</sup> CC(3) FI 05

<sup>60</sup> CC(3) FI 08

81. Nododd Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd swyddogaeth bwysig y sector preifat a rhanddeiliaid eraill wrth gyllido a hwyluso ei waith gallu ariannol, gan ddweud:

“The financial sector is a major supporter of our financial capability work... a Range of national and local public sector agencies, charitable trusts and housing associations also provide important support.”<sup>61</sup>

82. Fodd bynnag, aeth CAB Cymru ymlaen i fynegi rhai pryderon am sefydliadau fel undebau credyd a Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol fel Moneyline Cymru sy'n darparu cyngor ar ddyledion i gwsmeriaid sydd hefyd yn benthyca arian ganddynt. Mynegwyd pryder ganddynt am y 'swyddogaeth ddeuol' hon a nododd ei bod yn achos posibl o wrthdaro buddiannau.

83. Awgrymodd grŵp llywio Cynhwysiant Ariannol Abertawe y dylai cyfranogiad banciau fod yn orfodol, gyda gofyniad statudol i gyllido rhaglenni cyngor ariannol, a fyddai'n cael eu cydgysylltu'n ganolog gan Llywodraeth Cymru.<sup>62</sup>

84. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru fod Cymdeithas Bancwyr Cymru yn aelod o'i grŵp llywio cynhwysiant ariannol. Ystyriwn fod fforymau o'r fath yn gyfle defnyddiol i annog sefydliadau ariannol i ymgysylltu â'r gwaith o ddarparu rhaglenni addysg ariannol, o gofio'r pwysau anochel ar gronfeydd cyhoeddus yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, drwy fforymau fel y grŵp llywio cynhwysiant ariannol, ac ar y cyd â Llywodraeth y DU, yn annog sefydliadau ariannol i ddarparu cronfeydd i sefydliadau annibynnol fel y gallant gynnal rhaglenni addysg ariannol.**

85. Awgrymodd tystion hefyd y gallai cwmnïau preifat ymgysylltu'n well â'r agenda addysg ariannol, yn enwedig o ran cefnogi eu gweithluoedd eu hunain. Er enghraifft, dywedodd Katija Dew:

“there is room in the wider private sector for individual organisations and businesses to engage more with the financial

---

<sup>61</sup> CC(3) FI 16

<sup>62</sup> CC(3) FI 19

exclusion agenda. After all, they have workforces that may or may not be financially excluded.”<sup>63</sup>

86. Yn arwyddocaol, roedd CFEB yn cydnabod bod darparu seminarau addysg ariannol yn y gweithle yn dibynnu ar barodrwydd cyflogwyr i roi'r cyfle i'w staff gael gwybodaeth o'r fath. Dywedodd CFEB y gallai cwmnïau sector cyhoeddus hefyd fod yn fwy gweithgar yn hyrwyddo'r agenda addysg ariannol, gan nodi:

“Authorities work in the community and provide local services, but they are also employers. So, for example, Cardiff [council] employs 18,500 people, which is quite a chunk. So, what we tried to do was to provide financial education in the workplace, which was available to all council employees in Cardiff. We held a face-to-face seminar and every member of staff in Cardiff council also received one of our yellow booklets, ‘Making the Most of your Money’, which highlights a range of issues from budgeting through to insurance, borrowing, saving and retirement, which are the basics that you need to understand. So, Cardiff sent that booklet out to its 18,500 staff. So that is an example of a local authority working on this issue as an employer.”<sup>64</sup>

87. Credwn fod seminarau yn y gweithle yn ddull defnyddiol o sicrhau'r ddarpariaeth addysg ariannol. O gofio bod adnoddau cyhoeddus wedi'u buddsoddi i hwyluso datblygiad y dull hwn, credwn ei bod yn hanfodol ei fod yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl, a bod cyflogwyr yn mynd ati'n ddiwyd i annog a galluogi eu staff i fynychu seminarau o'r fath. O gofio effeithiau amrywiol gallu ariannol, a nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gallai hyn hefyd alluogi cyflogwyr i wella ansawdd bywyd eu gweithwyr cyflogedig am y nesaf peth i ddim.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chyflogwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat i'w hannog i hwyluso cyfranogiad eu gweithwyr cyflogedig mewn seminarau addysg ariannol yn y gweithle, ac wrth dderbyn adnoddau addysg ariannol.**

---

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 49

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 185

88. Roedd ein tystion yn fwy beirniadol o gydgysylltiad gwasanaethau ar **lefel leol**. Er enghraifft, amlygodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nifer o rwystrau i gynhwysiant ariannol yn y fwrdeistref, gan gynnwys diffyg gwasanaethau cyngor ariannol a dyledion, oherwydd diffyg gwasanaethau cydgysylltiedig<sup>65</sup> o fewn y sector. Ymhellach, yn hytrach nag awgrymu bod Caerffili yn enghraifft unigryw o ranbarth lle nad oedd gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu, roedd y dystiolaeth a gawsom yn ein hymchwiliad yn awgrymu bod y gwasanaethau yng Nghaerffili yn fwy cydgysylltiedig na'r rhai mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru:

“in Caerphilly, there is really good co-operation between the housing department and the local CAB, which provides debt clinics in the housing department. The housing department has just written a report to the full council suggesting that the amount of money that it has saved through evictions that have not happened because of that service is more than the cost of its funding for that particular service through the CAB. That sort of co-operation demonstrates that it really recognises how important it is, and refers people, in that case, not just for debt advice but also for financial capability. That is the sort of co-operation that it would be lovely to see absolutely everywhere. However, it is not like that everywhere.”<sup>66</sup>

89. Awgrymodd sawl tyst y dylai awdurdodau lleol fod yn bennaf cyfrifol am gydgysylltu'r ddarpariaeth addysg ariannol yn eu hardaloedd lleol. Dywedodd Cymdeithas Tai Rhondda ei bod yn credu bod rôl ar gyfer llywodraeth leol (yn hytrach na llywodraeth ganolog) wrth gydgysylltu'r ddarpariaeth addysg ariannol er mwyn ateb anghenion cymunedau gan na fydd un gwasanaeth ar gyfer pawb yn addas yn y maes hwn.<sup>67</sup> Yn yr un modd, dywedodd Scope:

“We agree with the [Financial Inclusion Strategy's] assertion that local authorities have the potential to play a huge role in promoting financial inclusion in Wales and hope to see the Welsh... Government take a lead on moving this agenda and the strategy forwards.”<sup>68</sup>

---

<sup>65</sup> CC(3) FI 10

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 114

<sup>67</sup> CC(3) FI 02

<sup>68</sup> CC(3) FI 27

90. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at gyfranogiad awdurdodau lleol mewn addysg ariannol, a'r sefyllfa werthfawr sydd gan awdurdodau – yn sgil eu cysylltiad beunyddiol ag unigolion – i nodi pobl sydd angen addysg ariannol ac i'w cyfeirio ati. Yn benodol, nododd fod fframweithiau eisoes yn bodoli i alluogi awdurdodau lleol i ddwyn gwahanol sefydliadau ynghyd mewn partneriaethau strategol: er enghraifft, drwy gynllunio cymunedol, y cytundeb sector gwirfoddol, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd Shelter Cymu yn ategu hyn, gan ddweud bod awdurdodau lleol yn allweddol wrth sylwi ar broblemau.<sup>69</sup>

91. Yn wir, cafwyd cryn dipyn o dystiolaeth am y gwaith cadarnhaol y mae awdurdodau lleol eisoes yn ei wneud i hyrwyddo cynhwysiant ariannol, gan gynnwys eu strategaethau lleol eu hunain. Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod wedi cynnal ei archwiliad gwrth-dlodi ei hun o fewn y fwrdeistref i hysbysu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn hyrwyddo cynhwysiant ariannol.<sup>70</sup>

92. Fodd bynnag, roedd tystion eraill yn pryderu nad oedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n gyson â'r ddarpariaeth addysg ariannol a chynhwysiant ariannol, oherwydd nad oedd yn gyfrifoldeb statudol. Dywedodd YWCA:

“the Financial Inclusion Strategy makes recommendations for local authorities, but is unclear as to action which local authorities must take. We believe the Assembly and the WLGA should provide strategic guidance or direction.”<sup>71</sup>

93. Yn sgil hyn o bosibl, dywedodd Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth, Gorllewin a De Cymru:

“We do invite local authorities and speak with them to try to get them engaged in the financial capability fora... we have poor attendance. Typically, when we talk, I find that we get a response such as, ‘Yes, we are interested, and we need to get involved in this’ but then nothing happens.”<sup>72</sup>

---

<sup>69</sup> CC(3) FI 12

<sup>70</sup> CC(3) FI 10

<sup>71</sup> CC(3) FI 21

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 141

94. Yn yr un modd, dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru:

“You would think that it would sit naturally within their social exclusion agenda, but that is pretty packed anyway. You have to get to an individual, persuade and encourage him or her, and maybe see it grow from there. If chief executives were somehow to have their arms twisted to be more proactive, that would filter down through the ranks. I know that, once we have the business forum agenda, we could do so much more than we are achieving now.”<sup>73</sup>

95. Yn wir, dywedodd Katija Dew:

“One of our challenges, however, is that there is still no statutory responsibility in respect of financial inclusion. So, what we try to do is to piggyback those concepts onto other areas where there is responsibility, for example, in the child poverty agenda, the homelessness agenda and so on. We try to transpose it onto some of those things. However, having that responsibility would make things a lot easier, and it would be easier for stakeholders who want to engage to be able to fit these things into the way that they work.”<sup>74</sup>

96. Yn yr un modd, dywedodd CFEB:

“The financial inclusion strategy was particularly timely and added a lot of momentum, but it is not statutory, so it depends on a lot of people’s goodwill and an awful lot of persuasion and influence through the Welsh Assembly Government team, and no stick, so to speak. That means that if it is not on some people’s priority list, it does not happen. Perhaps there is a way of adding some kind of statutory duty to local authorities or others, as that would help.”<sup>75</sup>

97. Rydym yn croesawu’n gynnes yr ymdrechion a wnaed gan nifer sylweddol o awdurdodau lleol i fynd i’r afael â chynhwysiant ariannol a hyrwyddo addysg ariannol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu am dystiolaeth arall a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn sy’n awgrymu nad yw awdurdodau lleol eraill wedi ymgysylltu â’r gwaith hwn. Roeddem wedi

---

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 54

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 59

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 204

ystyried argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol. Fodd bynnag, credwn y gellir datblygu'r cyfrifoldebau statudol cyfredol sydd gan awdurdodau lleol - er enghraifft mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi plant, iechyd, gofal cymdeithasol a lles - drwy fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo drwy amlygu'r ffaith hon, ac awgrymw'n y gellid datblygu'r ffordd o gydgysylltu gwaith ar gynhwysiant ariannol ac addysg ariannol drwy sicrhau ei fod yn un o gyfrifoldebau allweddol unigolion sy'n gweithio ar lefel uwch mewn llywodraeth leol.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ledled Cymru i dynnu sylw at werth trawsbynciol mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol cyfredol. Rhagwelwn y byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o hyn, yn annog awdurdodau a chymdeithasau tai unigol i nodi unigolion sy'n gweithio ar lefel uwch fel rhai a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynhwysiant ariannol a'r gwaith ar addysg ariannol, ar draws yr awdurdod/y gymdeithas.**

### **Darpariaeth drwy leoliadau addysg**

98. Cymeradwyodd amrywiaeth o dystion y manteision posibl o ddarparu addysg ariannol o fewn lleoliadau addysg traddodiadol (fel ysgolion), gyda chydlynnydd fforwm Cynhwysiant Ariannol Gogledd Cymru yn dweud:

“if you can enthuse young people, particularly in schools, about money management, they will take it home. They will take it home and they will talk to mum and dad about, ‘Why are you borrowing from the Provident, did you know that it is costing you x times more than more traditional methods?’”<sup>76</sup>

99. Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod addysg ariannol yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 7 ac 16 oed. Hefyd, mae elfennau o addysg ariannol wedi'u cynnwys ym

---

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Ebrill 2010, Para 67. Ymddengys bod y dull hwn o rannu addysg ariannol drwy rwydweithiau teuluol yn cael ei ategu gan dystiolaeth gan ymatebwyr i holiadur addysg ariannol y Pwyllgor, gyda 60% o ymatebwyr yn nodi bod teulu a ffrindiau yn darparu addysg ariannol, yn fwy nag unrhyw ffynhonnell arall.

mhwnc mathemateg TGAU a'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr rhwng 7 a 19 oed.<sup>77</sup>

100. Cyfeiriodd nifer o ymgylgoreion at waith Uned Addysg Ariannol Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â CFEB. Dywedodd y Gweinidog:

“Yn y lle cyntaf, mae'r Uned yn gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector addysg bellach i gefnogi darpariaeth addysg ariannol i rai 7 – 19 oed mewn addysg lawn amser. Mae'r Uned wedi sefydlu rhaglen waith ddwy flynedd [...] y nod yw cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn iddyn nhw allu darparu rhaglen wedi'i chynllunio a'i chydlynu o addysg ariannol sy'n rhoi'r gallu i ddysgwyr reoli eu cyllid a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus.”<sup>78</sup>

101. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, nododd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y byddai gwerthusiad annibynnol o'r Uned yn cael ei gomisiynu a'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2011.

### ***Rhoi blaenoriaeth i addysg ariannol yn y cwricwlwm ysgol***

102. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o dystion fod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i addysg ariannol yn y cwricwlwm, gyda Shelter Cymru yn dweud:

“The current PSE framework in schools does provide opportunities to teach young people about financial issues but it's not compulsory for teachers to address every single element of the framework.”<sup>79</sup>

103. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain:

“It is very important for schools to meet their thresholds and all their education targets. If this is not up there with getting 30 per cent in English and mathematics, it takes a lower priority.”<sup>80</sup>

---

<sup>77</sup> CC(3) FI 30

<sup>78</sup> CC(3) FI 30

<sup>79</sup> CC(3) FI 12

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 34



104. Mae nifer o ysgolion yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion astudio tuag at ennill cymwysterau o Ysgol Gyllid y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol. Yn ystod ymweliad rapporteur Mark Isherwood AC, dywedodd disgyblion yn Ysgol y Berwyn wrtho eu bod yn astudio am gymwysterau o'r fath oherwydd bod rhywfaint o ddarpariaeth ym mathemateg, ffiseg (biliau) ac ABCh ond nad oedd digon o gyfle<sup>81</sup> i gael addysg ariannol mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm.

105. Yn wir, argymhellodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru y dylai addysg ariannol gael gwell statws mewn ysgolion drwy ei dyrchafu i bwnc TGAU.<sup>82</sup>

106. Fodd bynnag, awgrymodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol:

“in Wales—unlike England, I am sad to say—financial education is now embedded in the curriculum. I suspect that that is because the profile of financial education in schools has been raised. That has been adopted by the Welsh Assembly Government as something that it is important to ensure that all children receive consistently across Wales. The resources that are available to support the Welsh Financial Education Unit are inevitably finite. We would like to see more resources made available and we may need to lever them in from elsewhere.”<sup>83</sup>

107. Fodd bynnag, credai nifer o dystion ac ymgyngoreion nad oedd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru yn ddelfrydol o hyd, gyda'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr yn awgrymu bod yr amser a neilltuir mewn ysgolion i addysg ariannol yn rhy gyfyngedig oherwydd pwysau'r cwricwlwm.

108. Rydym yn ymwybodol bod y fframwaith ABCh eisoes o dan bwysau i gyflawni ar sawl mater allweddol. Fodd bynnag, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth glir i addysg ariannol o fewn y fframwaith hwn, o ystyried goblygiadau addysg ariannol o ran iechyd materol, emosiynol a meddyliol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ariannol yn elfen orfodol o'r fframwaith**

---

<sup>81</sup> CC(3) AWE 05 Nodyn ar ymweliad yr Aelodau ag Ysgol y Berwyn

<sup>82</sup> CC(3) FI 03

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 163

**ABCh, a'i bod yn adolygu'r pwyslais a roddir ar addysg ariannol yn rheolaidd.**

***Darparu adnoddau ar gyfer cyflenwi addysg ariannol mewn ysgolion***

109. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

“Gall yr Uned roi cyngor ar y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r FSA – y Corff Addysg Ariannol i Ddefnyddwyr bellach – a'r rhan fwyaf o fanciau wedi cynhyrchu deunyddiau i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn rhai achosion mae eu staff yn cael eu hyfforddi i weithio gydag athrawon i gyflwyno addysg ariannol. Caiff yr adnoddau'u darparu am ddim. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar-lein hefyd felly gall yr ysgol gael mynediad hawdd atynt. Un o'r targedau i'r Uned yw gweithio gyda'r sector gwasanaethau ariannol i sicrhau bod rhagor o ddeunydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.”<sup>84</sup>

110. Fodd bynnag, dywedodd y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr:

“One member reported that in their school financial education in school currently involves downloading materials from various major financial institutions' websites which are then adapted to fit the timetabled PSE slot. Clear guidelines are needed and adequately resourced training for teachers. 'Pure' resources that are not tainted by financial institutions overt or covert advertising are necessary.”<sup>85</sup>

111. Rydym yn pryderu ynglŷn â'r gwrthddweud amlwg hwn yn ein tystiolaeth, ac yn credu y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddarparu cyfeiriad clir i ysgolion ar ba adnoddau y mae'n ystyried sy'n addas i'w defnyddio mewn gwersi addysg ariannol. Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn yn argymhelliad 4, sy'n galw am 'ganolfan ganolog' o wybodaeth i gynnwys cyfeiriadur o adnoddau cymeradwy ar gyfer darparu addysg ariannol mewn ysgolion.

---

<sup>84</sup> CC(3) AWE 08 Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn dilyn ymlaen o faterion a godwyd mewn sesiwn dystiolaeth ar 8 Gorffennaf

<sup>85</sup> CC(3) FI 04

### ***Pwy sy'n darparu addysg ariannol mewn lleoliadau addysg?***

112. Roedd peth trafodaeth ymhlith tystion ynglŷn â phwy oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion. Er enghraifft, awgrymodd cydlynedd Gallu Ariannol Gogledd Cymru:

“If you rely on the existing school staff to do it, it will get watered down, because a lot of them do not themselves understand money enough to feel confident when they talk about money issues... It is all well and good having the programmes, as sophisticated and potentially brilliant as they are, but how you deliver them on the ground is the real challenge and that is where the resources come in.”<sup>86</sup>

113. Yn yr un modd, pan ymwelodd Bethan Jenkins AC â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe, clywodd nad yw athrawon wastad yn teimlo'n hyderus am ddysgu'r pwnc ac nad ydynt yn siŵr sut i ymdrin â'r pwnc ac, felly, ni ellir cymryd yn ganiataol bod yr athrawon yn gymwys yn y maes hwn.<sup>87</sup>

114. Fodd bynnag, dywedodd tystion eraill bod athrawon mewn gwell sefyllfa nag asiantaethau allanol i ddarparu addysg ariannol, gan na fyddai partïon allanol o'r fath yn gwybod am anghenion penodol y grŵp hwnnw o bobl ifanc. Dywedasant hefyd y gallai'r bobl sy'n adnabod y rheini sy'n cael y wybodaeth ei theilwra ar eu cyfer.<sup>88</sup>

115. Yn arwyddocaol, sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r FSA (CFEB bellach) gan y teimlai nifer o athrawon nad oedd ganddynt yr hyder i addysgu'r rhan hon o'r cwricwlwm.<sup>89</sup> Cyfeiriodd nifer o ymgylgoreion at y swyddogaeth bwysig sydd gan yr uned wrth gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu addysg ariannol. Nododd CFEB fod gwerthusiad wedi'i gynnal o'r ffordd orau i swyddogion datblygu WFEU hyfforddi athrawon i ddarparu addysg ariannol effeithiol, a nododd:

---

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 23

<sup>87</sup> CC(3) AWE 09 Nodyn ar ymweliad yr Aelodau â chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 102

<sup>89</sup> CC(3) FI 22

“a blended approach of out of school training, and using pre-existing PSE/Mathematics training events, [is] the most effective way of supporting teachers in Wales.”<sup>90</sup>

116. ‘Tir canol’ cyffredin ymysg safbwyntiau tystion ar y mater hwn felly oedd y dylai athrawon fod yn gyfrifol am ddarparu addysg ariannol, gyda chefnogaeth WFEU ac asiantaethau allanol eraill. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf (ABCUL) fod nifer o undebau credyd yn rhan o’r gwaith o ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion, ac mewn ysgolion cynradd yn bennaf. Pwysleisiodd ABCUL fod addysg ariannol wedi’i gosod o fewn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru, a bod hon yn esiampl y dylid ei dilyn mewn manau eraill.<sup>91</sup> Yn yr un modd, dywedodd CFEB:

“a lot of agencies go into schools and help and support teachers by delivering more relevant information and case studies from the local environment and communities. We are trying to encourage the embedding of that as part of the wider learning at the school. The teacher has the educational knowledge and is able to link all that experience that is coming in to the wider curriculum across the school. For example, representatives of a citizens advice bureau may go in and talk about real-life debt, how that might work and what it might look like. That could be filtered into a maths lesson to make it more relevant, or into a personal and social education lesson, where you could look at real experiences in the community. We need teachers who feel comfortable in delivering that, but who can also support the people who are coming in and make it a much more sustainable educational experience. If you come in from an external organisation and do a lesson with a class, you might have 30 minutes with 30 children and young people, and then you go away again. We would like for the teacher to pick that experience up and make it more sustainable, so that a confident teacher who understands the issues and is comfortable in teaching the subject can then be with those 30 children the next week, the week after, and the week after that, and next year. That may not happen with an organisation coming in. Such an organisation may not understand educational outcomes and how they might work in the

---

<sup>90</sup> CC(3) AWE 07 CFEB yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar ar 20 Mai

<sup>91</sup> CC(3) FI 23

classroom, and it may not understand the young people it deals with for those 30 minutes... it is no good the Financial Services Authority or the Consumer Financial Education Body trying to get in to schools to deliver these programmes; they have to be delivered by teachers.”<sup>92</sup>

117. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, ac yn credu mai'r ffordd orau o ddarparu addysg ariannol yw drwy ddull partneriaeth sy'n cynnwys athrawon ac asiantaethau allanol. Yn wir, cawsom y cyfle i arsylwi ar enghreifftiau ymarferol o weithio mewn partneriaeth. Yn ystod ei hymweliad â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe, clywodd Bethan Jenkins AC fod y ganolfan:

“wedi gweithio gyda 22 ysgol, gan gynnig gweithdai sy'n addas ar gyfer plant o wahanol oeddrannau – maent wedi cael adborth cadarnhaol iawn, ac wedi cael eu gwahodd yn ôl i ddarparu rhagor o weithdai.... Mae gan CAB gysylltiadau â chynghorau ysgol. Mae gan bob cyngor ysgol drysorydd, ac mae CAB wedi eu cynorthwyo i agor cyfrifon banc..... Caiff siopau byrbryd mewn ysgolion eu rhedeg gan gynghorau ysgol, ac mae CAB wedi darparu gweithdai busnes a chynnig help i baratoi cynlluniau busnes.”<sup>93</sup>

118. Yn yr un modd, clywodd Aelodau a oedd wedi ymweld ag Ysgol Bryn Gwalia, a oedd wedi datblygu partneriaeth gydag undeb credyd Sir y Fflint gyfan, gan fyfyrwyr sut roeddent wedi cael addysg ariannol drwy bresenoldeb yr undeb credyd yn yr ysgol. Dywedodd disgyblion eu bod eisoes wedi newid eu harferion ariannol yn sgil yr addysg hon, gan ddweud:

“[It] stops you thinking all the time that you have to spend – able to save for what you really want... used to buy things that I wouldn't use again – now in the habit of saving for when I am older... you are not just wasting it on cheap toys, but saving for more important things like football.”<sup>94</sup>

119. Roeddem yn pryderu ynghylch tystiolaeth a ddaeth i law a oedd yn awgrymu nad oedd rhai ysgolion yn ymwybodol o ddarpar

---

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Paragraffau 171-4

<sup>93</sup> CC(3) AWE 09 Nodyn ar yr ymweliad yr Aelodau â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe

<sup>94</sup> CC(3) AWE 04 Nodyn ar ymweliad rapporteur yr Aelodau ag Ysgol Bryn Gwalia

bartneriaid y gallent weithio gyda nhw i ddarparu addysg ariannol. Er enghraifft, clywodd Mark Isherwood AC, yn ystod ei ymweliad ag Ysgol y Berwyn, fod “yr ysgol yn awyddus i wybod mwy am y posibilrwydd o weithio gyda’r undebau credyd, ond nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gynllun o’r fath yn yr ardal ar hyn o bryd.”<sup>95</sup> Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru ei bod eisoes yn cymryd camau i sicrhau y bydd yr:

“arweiniad i’w lunio gan yr Uned ar addysg ariannol i ddisgyblion 7 i 19 oed gynnwys gwybodaeth am y cyfleoedd i ddarparwyr dysgu yng Nghymru wella dysgu drwy bartneriaeth gyda’r sector gwasanaethau ariannol, undebau credyd a’r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth”.<sup>96</sup>

120. Rydym o’r farn y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ategu ei chanllawiau ar addysg ariannol i ddisgyblion rhwng 7 a 19 oed drwy alluogi ysgolion i nodi a datblygu cysylltiadau â darpar bartneriaid yn gyflym drwy ‘ganolfan ganolog’ o wybodaeth. Rydym wedi ymgorffori’r awgrym hwn yn argymhelliad 4.

#### *Monitro asiantaethau allanol sy’n cynorthwyo athrawon*

121. Awgrymodd sawl tyst hefyd y dylid monitro asiantaethau allanol sy’n ymwneud â darparu addysg ariannol, drwy leoliadau addysgol. Er enghraifft, roedd Shelter Cymru yn bryderus. Dywedodd:

“There is a role for banks, but we are trying to emphasise the point that they are private companies, ultimately, and so they may have an agenda. They may not necessarily be going in to talk about financial education. They will touch on it, but, ultimately, it may be a case of their saying, ‘You can save, so why not save with us?’ We are concerned that that would be a little biased and not an independent service. That is not to say that we do not support an approach from banks.”<sup>97</sup>

122. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Jayne Wynn, cydlynnydd Fforwm Ariannol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru:

“there are a lot of partners and organisations out there now, as I say, several years on, picking up financial capability and

---

<sup>95</sup> CC(3) AWE 05 Nodyn ar ymweliad rapporteur yr Aelodau ag Ysgol y Berwyn

<sup>96</sup> CC(3) AWE 08 Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn dilyn ymlaen o faterion a godwyd mewn sesiwn dystiolaeth ar 8 Gorffennaf

<sup>97</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 107

running with it and trying to do their own training, if you like... Over and above that, an organisation like the FSA should say—and I am sure that they probably do not want to be given this role—‘What are you taking out there? What are you teaching and what is the quality of that work?’ I think that is very important.”<sup>98</sup>

123. Credwn fod gan asiantaethau allanol swyddogaeth bwysig i fod yn rhan o'r gwaith o ddarparu addysg ariannol, a chredwn y dylid rhoi blaenoriaeth i annog hynny, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Fodd bynnag, credwn hefyd fod angen monitro a rheoleiddio darpariaeth o'r fath, a chredwn y gallai Llywodraeth Cymru fynd ati i gynnwys Estyn wrth bwysu a mesur y mater hwn.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Estyn i ystyried a yw safonau'r addysg ariannol a ddarperir mewn ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth drwy asiantaethau allanol, yn cael eu hyrwyddo a'u monitro'n ddigonol.**

### **Darpariaeth drwy ymgyrch yn y cyfryngau**

124. Awgrymodd nifer o'n tystion mewn tystiolaeth lafar y gellid codi proffil addysg ariannol yn ddefnyddiol drwy ymgyrch yn y cyfryngau, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r canfyddiad mai dim ond pobl mewn dyled neu sydd â 'phroblemau ariannol' sydd angen addysg ariannol. Dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru:

“We need people to see it on the television, in the newspapers and on the radio. We need them to pick up on images, straplines and buzzwords about money, and how, if you manage it, you get a much better deal, and, if you do not manage it, something nasty might happen but you are not on your own. There are a lot of people out there who can help you with little bits of it, from the FSA to your next-door neighbour. If financial capability is going to work in the long term, it has to be embedded, particularly on our social housing estates... we also need to put it into a context whereby people feel

---

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 114

comfortable talking to anyone about money, just like they talk about football.”<sup>99</sup>

125. Cytunodd Katija Dew fod angen addysg ariannol ar bawb, gan ddweud:

“people who are seen to be haves, as opposed to have-nots, often end up being have-nots because they cannot manage their money properly. So, people who are on a moderate income or a lower moderate income end up on a low disposable income because the parameters of financial exclusion stop them from making the most of their money and therefore being able to make choices. So, they end up on a lower income than people who might be seen as have-nots.”<sup>100</sup>

126. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, a chredwn y gallai ymgyrch yn y cyfryngau helpu i gynyddu'r wybodaeth am ystyr y jargon a ddefnyddir yn gyffredin mewn hysbysebu ariannol. Yn arwyddocaol, dim ond 29.3% o'r rheini a lenwodd ein holiadur a nododd eu bod yn hyderus eu bod yn gwybod beth yw ystyr termau fel 'APR' ac AER'.<sup>101</sup> Rydym hefyd yn credu y gellir hyrwyddo ymgyrch yn y cyfryngau drwy adroddiadau misol neu chwarterol awdurdodau lleol. Gofynnodd Joyce Watson AC:

“Do you agree that it is not beyond the bounds of reason for them (LAs) to pose some very simple questions on the back when they send out those reports? The taxpayer is paying for it anyway and it goes out, sometimes quarterly and sometimes annually, so why not pose some very simple questions on the back? It links to your media campaign, but on a local level. You could ask people whether they are likely to be able to claim.”<sup>102</sup>

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal ymgyrch barhaus yn y cyfryngau i gynorthwyo pobl i ddeall manteision cynhwysiant ac addysg ariannol, a sut y gallant ddefnyddio gwasanaethau cymorth ac ariannol (gan gynnwys cyfrifon banc sylfaenol ac yswiriant cynnwys cartref) yn lleol, drwy weithio gyda rhanddeiliaid ar lefelau lleol a chenedlaethol.**

---

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Paragraffau 46-47

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 47

<sup>101</sup> Ymatebion i holiadur y Pwyllgor

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 103



127. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd addysg ariannol yn amcan hirdymor, yn hytrach nag ateb cyflym. Yn wir, awgrymodd nifer o'n tystion y gall problemau rheolaeth ariannol pobl ddeillio nid yn unig o ddiffyg gwybodaeth, ond hefyd o lu o ffynonellau sy'n aml yn anghyson ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd a all lethu <sup>103</sup> pobl. Er enghraifft, beirniadodd un ymatebwr i'n holiadur y diwylliant hysbysebu dryslyd a'r diwylliant 'up-to'. Dywedodd eu bod yn hysbysebu rhywbeth, ond eu bod mewn gwirionedd yn twyllo pobl. <sup>104</sup>

128. Yn yr un modd, dywedodd ABCUL:

“Everything that we have in our society smacks of easy credit—‘Get it now’, ‘Buy now; worry about it later’—so to encourage saving is counter-cultural. My partner is a head teacher, and she said that I can talk as much as I like about financial education, but it is hard to do. Everything that children are hearing, 24 hours a day, is pushing things in the opposite direction.”<sup>105</sup>

---

<sup>103</sup> CC(3) FI 07

<sup>104</sup> Ymatebion i holiadur y Pwyllgor

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 17

## 2. Cynhwysiant ariannol – defnyddio gwasanaethau ariannol

---

129. Er bod ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar effaith addysg ariannol, dywedodd amrywiaeth o dystion bod yn rhaid i bobl allu defnyddio gwasanaethau ariannol hefyd er mwyn iddi fod yn effeithiol. Er enghraifft, er bod Cartrefi Cymunedol Cymru yn dweud bod pawb yn gallu wynebu cyfnodau o gael eu hallgáu'n ariannol ond bod modd dod drwy'r cyfnod hwnnw gyda gallu ariannol ac addysg,<sup>106</sup> dywedodd hefyd:

“even if awareness, knowledge and education were perfect in this country tomorrow, and we waved a magic wand on that, you still have this issue of choice. Unless we can increase the products available for people who are currently not served, we are not giving them a choice, and knowledge without choice can be pretty meaningless.”<sup>107</sup>

130. Yn yr un modd, dywedodd CFEB:

“Without greater access to financial services the vision of financial inclusion in Wales will not be achieved... Financial education can reduce reliance for some on doorstep lenders to a certain extent but will have very little impact unless accessible, affordable alternatives exist and are well marketed.”<sup>108</sup>

131. Dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth, Gorllewin a De Cymru hefyd ei bod yn werthfawr cysylltu addysg ariannol gyda gwasanaethau ariannol a oedd ar gael i bawb, gan awgrymu:

“[the] financial education provided should be inclusive of subject areas such as accessing and using appropriate financial products and services – often subjects offered are restricted to budgeting and borrowing.”<sup>109</sup>

---

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 15

<sup>107</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 78

<sup>108</sup> CC(3) FI 22

<sup>109</sup> CC(3) FI 28

132. Yn yr un modd, pwysleisiodd Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Abertawe nad yw'n ddigon rhoi'r sgiliau i bobl sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian, oherwydd bod angen iddynt hefyd allu defnyddio gwasanaethau a chynhyrchion addas. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, gan gydnabod nad oes diben dysgu'r sgiliau i bobl sydd eu hangen arnynt i ddethol gwasanaeth ariannol sy'n briodol i'w hanghenion os na allant ddefnyddio cynnyrch neu wasanaeth addas.

### **Y defnydd o gyfrifon banc sylfaenol**

133. Nododd Les Cooper, cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru, fod profiad y fforwm yn dangos nad oes gwybodaeth ym manau cyhoeddus rhai canghennau banc am gyfrifon banc sylfaenol. Dywedodd:

“head office, the people at the top, will sign up to initiatives, they will support Government programmes and commit their organisations to the financial capability process. The problem is that that information does not filter down to counter level. The current take-up of bank accounts is quite high; I think that 92 per cent is pretty good. For the remaining 8 per cent, there will be a whole raft of reasons why those people are not taking out basic bank accounts. [61] The head office signs up to basic bank accounts as a great idea, but when you go into local branches—and I visited some in Wrexham recently—you see that there is not a single leaflet about them. If people go up to the counter and ask to open an account, they are immediately offered a current account, because the counter staff get commission for opening those kinds of accounts. Basic bank accounts are not even referred to. The lack of communication across all levels is a contributory factor.”<sup>110</sup>

134. Yn yr un modd, dywedodd Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol Cymru yr Adran Gwaith a Phensiynau:

“There are still difficulties in obtaining basic bank accounts. We are trying to monitor that centrally, via the financial inclusion champion initiative. There are several problems with this... the banks really need to take their responsibilities on board, and

---

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Para 60

we are working on high-level policy on this matter over the border.”<sup>111</sup>

135. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru fod gan fanciau ddyletswydd hefyd i sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael i bawb, a bod yr undebau credyd yn gwneud hynny'n dda iawn ond bod rhai banciau'n gwneud hynny'n wael iawn. Dywedodd hefyd:

“Basic bank accounts are supposed to be available to everyone, but some of our clients continue to experience difficulties in opening a basic bank account. So, they are the sorts of basic things that they could do. They could improve their customer relations in that way. As someone who started their career on benefits and virtually no income, I am still with the same bank, which is doing very nicely, thank you, out of me now... So, it is quite short-sighted of some parts of the credit industry to be so reluctant to provide services to people who are vulnerable and in poverty right now, because those people will move on in their lives.”<sup>112</sup>

136. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Barclays fod dros 800,000 o'i gwsmeriaid yn defnyddio ei Gyfrif Banc Sylfaenol, a bod bron i 50,000 o'r rhain yn byw yn ardaloedd difreintiedig y DU. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod ei gyfrif banc sylfaenol yn un o ddim ond dau gyfrif sydd ar gael ar y stryd fawr sy'n agored i fethdalwyr nad ydynt wedi'u rhyddhau ac felly sydd ar gael i unrhyw un nad oes ganddynt hanes o dwyll.<sup>113</sup>

137. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Barclays a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill yn darparu cyfrifon banc sylfaenol. Fodd bynnag, credwn y gallai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n ddefnyddiol â banciau mawr eraill i'w hannog i fynd ati'n ddiwyd i hyrwyddo gwasanaethau o'r fath mewn canghennau lleol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â banciau'r stryd fawr er mwyn iddynt feithrin agwedd fwy cadarnhaol tuag at agor cyfrifon banc sylfaenol.**

---

<sup>111</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 55

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para

121

<sup>113</sup> CC(3) FI 11

## Swyddfeydd post

138. Dywedodd Age Cymru y gall swyddfeydd post wneud cyfraniad sylweddol at sicrhau bod gwasanaethau ariannol ar gael ar gyfer pobl hŷn. Dywedodd hefyd:

“The Post Office can play a vital role in areas where there is difficulty in accessing banks and other financial services. In many cases, post offices are a key service that helps both rural and urban communities remain viable.”<sup>114</sup>

139. Pwysleisiodd ABCUL hefyd rôl swyddfeydd post a nododd y cynlluniau i gynnig gwasanaethau undebau credyd drwy rwydwaith swyddfa'r post. Dywedodd:

“Through linking to the back-office, members would be able to use any credit union’s services at any PO branch providing a true affordable alternative to many and benefiting the sustainability of both credit unions and the Post Office network.”<sup>115</sup>

140. Rydym yn croesawu'r cydweithio arloesol hwn rhwng Swyddfa'r Post ac undebau credyd, ac edrychwn ymlaen at weld y berthynas yn datblygu ymhellach.

## Undebau Credyd

141. Nododd ABCUL fod undebau credyd yn ddarparwyr gwasanaethau ariannol hygyrch a bod ganddynt ymrwymiad statudol i ddarparu addysg ariannol i'w haelodau drwy hyfforddi ac addysgu aelodau i ddefnyddio arian yn ddoeth a rheoli eu materion ariannol.<sup>116</sup>

142. Fodd bynnag, er y cydnabuwyd yn gyffredinol bod undebau credyd ar gael ledled Cymru gyfan, dywedodd y mwyafrif o'r tystion fod rhai undebau yn fwy llwyddiannus nag eraill. Er bod 61% o'r ymatebwyr i'n holiadur wedi datgan eu bod yn gwybod beth yw undebau credyd, roedd y mwyafrif o'r tystion yn credu mai nifer gymharol fach o'r boblogaeth o hyd sy'n ymwybodol ohonynt. Awgrymodd Scope fod ei ymchwil yn dangos nad yw 98% o'r boblogaeth yn defnyddio undeb credyd yn aml, os o gwbl, ac awgrymodd Age Cymru nad oedd nifer o bobl hŷn yn ymwybodol o

---

<sup>114</sup> CC(3) FI 13

<sup>115</sup> CC(3) FI 23

<sup>116</sup> CC(3) FI 23

undebau credyd. Awgrymodd Cydgysylltydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru nad oedd y mudiad yn tyfu ar raddfa sy'n ddigonol i herio cwmnïau credyd cartref (benthycwyr carreg drws fel Provident).

143. Roedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cydnabod y gellid cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o undebau credyd, ond dywedodd:

“Rather than trying to bring about the growth of the sector, I am currently trying to ensure its stability first. We do not want to build a huge unit that does not have firm foundations.”<sup>117</sup>

144. O gofio bod Undeb Credyd Cymunedol Landsker wedi dirwyn i ben yn ddiweddar, rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod cynilwyr gyda'r undeb credyd hwn yn gallu adennill eu cynilion drwy Gynllun lawndal y Gwasanaethau Ariannol, sy'n dangos pa mor gymharol ddiogel yw cynilo gydag undebau credyd o'r fath.

### **Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol**

145. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru, wedi bod yn allweddol wrth sefydlu Moneyline Cymru, Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol a ddatblygwyd yn arbennig i ddarparu benthyciadau fforddiadwy ac i ymateb i'r defnydd o fenthycwyr carreg drws gan denantiaid cymdeithasau tai. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Cartrefi Cymunedol Cymru yn disgrifio Moneyline Cymru fel prosiect benthycyca fforddiadwy, cyfrifol a chynaliadwy sydd hefyd yn darparu cyngor ariannol a chynllunio ariannol.”<sup>118</sup>

146. Wrth ymateb i'n pryderon am y cyfraddau llog cymharol uchel ar rai o'i fenthyciadau, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“What we are trying to do is to plug that gap and assist that next cohort of people who have not been in a position to save with a credit union over three months, do not have credit union membership, are a high risk, and would never be served by a bank. Their only other alternative, their best next alternative, is 275 per cent from a doorstep lender. That best next alternative

---

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Para 157

<sup>118</sup> CC(3) FI 21

on £100 over 52 weeks will cost them £70 in interest charges for that £100. People who come through Moneyline will be lent against risk, and we will assess the risk that they carry. The interest rate will vary between 27 per cent, which is just above what credit unions charge, up to about 41 per cent. So, if we were charging somebody 27 per cent, they would pay £19 for the £100 that they borrow over the period of 12 months, which is obviously £51 cheaper than the doorstep lender. We give an example of where that has had a pretty significant effect on one individual: a 61-year-old woman who is on benefits paying £200 a month to a doorstep lender. Moneyline redeemed that debt and she now pays £80 a month, and, within that £80, £20 goes to the local credit union, so she is starting to have savings for the first time. [50] Over time, we will have to assess how things go with default rates. Where we can bring down interest rate charges, we are very keen to do that, but I can assure you that we have been very aware of that. However, to show some leadership, given the scale of the problem out there, we still feel that it is much better to offer people a 27 or 40 per cent loan than simply to throw them to the alternatives, which can be anything from 270 per cent to 2,000 per cent, in some cases.”<sup>119</sup>

147. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru fod cyfraddau llog Moneyline yn uwch na'r rhai a godir gan undebau credyd, ond yn is na rhai cwmnïau credyd cartref carreg drws.

148. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon am y cyfraddau llog uwch hyn, gyda Mohammed Asghar AC yn dweud:

“you say that you are reducing interest rates from 275 per cent to a lesser percentage, but someone jumping from floor 270 of a building or floor 26 will still get hurt.”<sup>120</sup>

149. Yn wir, dyma a gymeradwywyd gan un ymatebwr i'n holiadur:

“we should also look to legislate to prevent interest rates that are beyond 50% - its scandalous daylight robbery on the most ill-

---

<sup>119</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Paragraffau 49-50

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 61

educated, desperate, poorest and vulnerable people and its a disgrace that it has been left by politicians to go unchecked.”<sup>121</sup>

150. Rydym yn parhau i bryderu am gyfraddau llog sydd mor uchel, a'r diffyg gwaharddiad cenedlaethol ar gyfraddau llog gormodol. Yn benodol, yn 'The Coalition: Our Programme for Government', nododd Llywodraeth y DU y byddai'n rhoi pwerau newydd i reolyddion i ddiffinio a gwahardd cyfraddau llog gormodol ar gardiau credyd a siopau, ac y byddai'n cyflwyno cyfnod ailfeddwl o saith niwrnod ar gyfer cardiau siopau.<sup>122</sup>

151. Felly, edrychwn ymlaen at weld y cynigion hyn yn cael eu datblygu.

### **Yswiriant Cynnwys Cartref**

152. Cyfeiriodd Les Cooper a Chartrefi Cymunedol Cymru at y nifer fach o bobl sy'n prynu yswiriant cynnwys cartref. Awgrymodd y ddau y dylid codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn, gyda Chartrefi Cymunedol Cymru yn awgrymu y dylid cael ymgyrch ar y cyd gan y sector a Llywodraeth Cymru i annog pobl i gael yswiriant.

153. Credwn y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn drwy'r ymgyrch yn y cyfryngau a grybwyllir yn argymhelliad 12 ein hadroddiad.

### **Allgáu ariannol yn sgil diffyg mynediad i'r rhyngrwyd**

154. Nododd Age Cymru bod mwy a mwy o gynnyrch ariannol ar gael ar-lein yn unig a bod hyn yn rhwystr i unrhyw un nad oes ganddo fynediad i'r rhyngrwyd.

155. Roedd Llais Defnyddwyr Cymru yn rhannu'r pryder hwn a chyfeiriodd at ei ymchwil ei hun ar y pwnc, *Cysylltiad neu Gau Allan?*, a oedd yn nodi mai dim ond 27% o bobl 65 oed neu hŷn sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. Amlygodd yr adroddiad hwn hefyd y ffaith bod grwpiau cymdeithasol mwy cefnog yn fwy tebygol o fod â mynediad i'r rhyngrwyd. Parhaodd National Energy Action Cymru ar y thema hon drwy amlygu'r ffaith nad yw llawer o'r bargeinion gorau ym maes ynni yn opsiwn i'r bobl hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol<sup>123</sup> neu nad oes ganddynt gyfrif banc.

---

<sup>121</sup> Ymatebion i holiadur y Pwyllgor

<sup>122</sup> 'The Coalition: Our Programme for Government', Llywodraeth EM, tudalen 12.

<sup>123</sup> CC(3) FI 18



156. Rydym yn pryderu nad oes gan bobl fynediad i'r rhyngrwyd oherwydd diffyg sgiliau a thechnoleg, ac yn croesawu ymdrechion Llywodraethau Cymru a'r DU i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Rydym hefyd yn nodi ac yn edrych ymlaen at ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o weithredu, monitro a gwerthuso Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Rydym yn deall y bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar seilwaith, sgiliau a band eang.

### 3. Stigma

---

*“Don’t know who to ask. Do not want to admit it to family and friends... I was too embarrassed to ask for help: I felt that I 'should' know how to manage my money. It would have been a bit like saying I didn't have any common sense. I learnt from my mistakes in silence.”*

- Ymatebion dienw i holiadur Addysg Ariannol y Pwyllgor.<sup>124</sup>

157. Dywedodd ContinYou Cymru mai rhan o’r rheswm pam nad yw addysg ariannol bob tro’n cyrraedd y rhai hynny sydd ei angen fwyaf yw’r “stigma” sydd ynghlwm wrth beidio â deall materion ariannol.<sup>125</sup> Cytunodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Dywedodd:

“there is still that stigma because people sometimes do not want to ask for advice on money... Sometimes, people may think that it is silly to ask a certain question, but the answer might make a huge difference to their lives”<sup>126</sup>

158. Dywedodd sawl tyst y gallai’r stigma hwn olygu bod banciau a sefydliadau ariannol eraill yn codi ofn ar bobl sydd angen addysg ariannol. Dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru:

“a lot of the people we were working with felt intimidated and would not even want to walk through the door of a bank or a financial institution. They felt that they were too poor to use these services, that they would not know the correct questions to ask, that they would feel intimidated by the staff and that they did not have a driving licence or a passport, or whatever they would need.”<sup>127</sup>

159. Ar y llaw arall, dywedodd ABCUL:

---

<sup>124</sup> Ymatebion i holiadur y Pwyllgor. Yn arwyddocaol, er bod 57.1% o’r ymatebwyr i’n holiadur wedi datgan eu bod wedi profi problemau ariannol, roedd 67.7% ohonynt wedi datgan nad oeddent erioed wedi gofyn am help wrth reoli eu harian.

<sup>125</sup> CC(3) FI 06

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Paragraffau 133 a 144

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mehefin 2010, Para 136

“there are many barriers to people feeling that a bank is a welcoming place. We feel that, in many credit unions, we can do something that welcomes people better than that.”<sup>128</sup>

160. Rydym yn pryderu y gall stigma fod yn rhwystr enfawr i ddefnyddio gwasanaethau ariannol neu gael addysg ariannol. Fodd bynnag, credwn y gellir herio mythau a stigma drwy fynd i'r afael ag addysg ariannol drwy sianeli cyffredinol, fel ysgolion, a thrwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau.

---

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 65

## 4. Cynyddu Incwm a Lleihau Dyledion

---

161. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd nifer o ymgynghoreion y cysylltiadau rhwng addysg ariannol, mynediad i gredyd fforddiadwy a chynyddu incwm. Er enghraifft, dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

“Linking financial education with income maximisation programmes would also help to provide a more holistic service. Alerting people to the benefits they are entitled to and supporting take-up is just one aspect. Financial education can also help people to understand the benefits system, particularly important when Government policy means entitlements may change and incomes may be reduced, as well as providing people with key budgeting skills to help them manage on a very limited income.”<sup>129</sup>

162. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru:

“You must do income maximisation and understanding money management, because they go together. Any debt service that does not do income maximisation is not a decent debt service. You must do both because people’s lives are about what comes in and what goes out. People will not learn to manage their money unless they understand both sides of that equation.”<sup>130</sup>

163. Cytunodd tystion hefyd ei bod yn werthfawr i fentrau addysg ariannol gydnabod y byddai angen mynd i’r afael â dyledion weithiau, ac edrych ar ffyrdd o sicrhau bod dyledion o’r fath yn cael yr effaith leiaf bosibl. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Caerfyrddin bwysigrwydd peidio â chanolbwyntio ar atal dyledion yn unig wrth gynnig addysg ariannol oherwydd gall y person mwyaf hyddysg mewn materion ariannol ganfod ei fod mewn dyled oherwydd amgylchiadau na ragwelwyd a/neu ddewisiadau gwael a wnaed er gwaethaf ei allu mawr.<sup>131</sup>

---

<sup>129</sup> CC(3) FI 14

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Mehefin 2010, Para 130

<sup>131</sup> CC(3) FI 26

## Y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau

164. Nododd Age UK fod Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif y gellid gostwng lefelau tlodi ymysg pobl hŷn tua thraean pe bai pawb cymwys yn manteisio ar y budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm. Cyfeiriwyd at y Credyd Pensiwn a Budd-dal y Dreth Gyngor yn benodol fel rhai lle y mae niferoedd isel iawn yn manteisio arnynt.<sup>132</sup> Awgrymwyd y gallai talu budd-daliadau yn awtomatig fod yn opsiwn a chyfeiriodd at raglen beilot yn Lloegr.

165. Mae cynyddu incwm yn bwysig iawn i National Energy Action Cymru a amlygodd y gwahaniaeth y byddai'n ei wneud i'r rheini sy'n wynebu tlodi tanwydd. Roedd yn credu bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol a galwodd eto am osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd - rhywbeth y teimlai na ellid ei gyflawni heb fynd i'r afael yn iawn â sawl agwedd ar gynhwysiant ariannol.<sup>133</sup> Awgrymodd tystion eraill hefyd y gallai awdurdodau lleol gael rôl fwy rhagweithiol yn sbarduno pobl i wneud cais am fudd-daliadau os oes ganddynt hawl i'w cael. Er enghraifft, dywedodd Cydlynedd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru:

“the housing department, the rent officers, do not seem to talk too much about housing benefit at a strategic level. They may chase housing benefit claims on behalf of a particular resident, but I think that the two departments should be under the same management team, to get that synergy between the two aspects. Local authorities are very aggressive in the way they recover council tax arrears. If they applied that level of aggression to helping people in the first place, I think that they could get the same sort of results... We use rent arrears, within the Wales and West Housing Association, as a trigger, an indicator that something is going wrong, and I think that local authorities could just as well do that, not just with rent, but with council tax. Before they send the account to a bailiff company, let us just think about what is going wrong. Let us establish a dialogue with that person before we take it onto another level.”<sup>134</sup>

---

<sup>132</sup> CC(3) FI 13

<sup>133</sup> CC(3) FI 18

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Ebrill 2010, Paragraffau 96-97

166. Cytunodd Shelter Cymru hefyd y gallai awdurdodau lleol gyfrannu'n fwy gweithredol wrth hyrwyddo gwybodaeth, gan ddweud y gall awdurdodau lleol hefyd gyfrannu at hyrwyddo gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu hardaloedd drwy'r wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi, ar wefannau, mewn papurau newydd, ac ati.<sup>135</sup>

167. Awgrymodd Llais Defnyddwyr Cymru hynny hefyd gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn cyllido sawl rhaglen cynyddu incwm, fel:

“Better Advice: Better Health; local authority based initiatives to increase the take-up of Housing/Council Tax Benefit; increasing benefit take up amongst families with disabled children; and the Home Energy Efficiency Scheme.”<sup>136</sup>

Dywedodd hefyd y gallai'r Pwyllgor argymhell dulliau i gyfeirio rhwng y rhaglenni hyn fel bod mentrau gallu ariannol yn cael eu gwella.<sup>137</sup>

168. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud, am gryn amser, i sicrhau dull rhagweithiol o fanteisio ar fudd-daliadau drwy wasanaethau lleol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'r ymdrechion hynny.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a gwasanaethau cyngor y trydydd sector i sicrhau dull rhagweithiol o alluogi pobl i fanteisio ar fudd-daliadau. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl y gwyddom sydd ag ôl-ddyledion rhent a/neu dreth gyngor yn cael eu cyfeirio at wybodaeth am y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, ond nad ydynt yn eu hawlio.**

## **Lleihau Dyledion**

169. Nododd Llais Defnyddwyr Cymru ei fod wedi comisiynu arolwg dyledion drwy Gymru gyfan a gafodd ei gyhoeddi ym mis Awst 2010.

170. Cyfeiriodd Katija Dew at sylwadau a wnaed gan Cyngor ar Bopeth a oedd yn awgrymu bod nifer o broblemau o ran dyledion yn cael eu hachosi gan newid mawr yn amgylchiadau bywyd rhywun, fel diweithdra. Plediodd ei chefnogaeth i strategaeth CFEB o dargedu unigolion yn ystod cyfnodau allweddol yn eu bywydau.

---

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 117

<sup>136</sup> CC(3) FI 14

<sup>137</sup> CC(3) FI 14

171. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae CFEB wedi'i wneud i fynd i'r afael â lleihau dyledion.

### **Benthyca arian yn anghyfreithlon**

172. Roedd y mwyafrif llethol o'r tystion ac aelodau o'r cyhoedd (a lenwodd holiadur addysg ariannol y Pwyllgor) yn credu bod addysg ariannol yn ffactor pwysig sy'n atal pobl rhag bod yn destun camfanteisio gan fenthycwyr arian anghyfreithlon.<sup>138</sup> Yn wir, dywedodd un disgybl o Ysgol Bryn Gwalia na fyddai'n benthyca gan fenthycwyr arian didrwydded yn sgil yr addysg ariannol a gafodd.<sup>139</sup> Dywedodd cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru:

“With the growing problem of illegal money lending there is also a need for the police to be more proactive on social housing estates. Community police officers are ideally placed to monitor the “credit traffic” in their areas and should be able to differentiate between individuals engaged in such activity. The collection of low level intelligence could make a positive contribution to the work of the Illegal Money Lending Unit.”<sup>140</sup>

173. Fodd bynnag, dywedodd nifer o dystion hefyd fod atal benthyca arian yn anghyfreithlon yn dibynnu llawn cymaint ar alluogi mynediad i gynnyrch hygyrch yn ariannol (cyfreithlon), ag y mae ar addysg ariannol. Er enghraifft, dywedodd Scope mai mynediad i gredyd yn hytrach na diffyg ymwybyddiaeth o'r canlyniadau yw'r ffactor mwyaf wrth ddefnyddio benthyca carreg drws neu fenthycwyr arian didrwydded.<sup>141</sup>

174. Canmolwyd gwaith Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru yn benodol gan nifer o ymgynghoreion. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Uned:

“Working within communities, with our stakeholder and partner agencies on a daily basis has demonstrated a frustration on the lack of accessibility of affordable credit for those who really need it. Many loan sharks target and entrap those who are

---

<sup>138</sup> Roedd 92.7% o'r ymatebwyr i holiadur y Pwyllgor yn credu y byddai addysg ariannol yn gwneud pobl yn fwy annhebygol o fenthycwyr arian gan fenthycwyr arian didrwydded.

<sup>139</sup> CC(3) AWE 04 Nodyn ar ymweliad rapporteur Aelodau ag Ysgol Bryn Gwalia

<sup>140</sup> CC(3) FI 03

<sup>141</sup> CC(3) FI 27

vulnerable and cannot on their own access credit, employment or other means of remaining on an even keel.”<sup>142</sup>

175. Canmolodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol waith yr uned hefyd, gan ddweud:

“A month or two ago, there was a big crackdown on illegal money-lending in Flintshire, in the area that you represent, Chair. I cannot say enough about the unit; it is really good, I am very supportive of it, and it is doing a good job. However, it could come under threat because of the finances. A partnership approach is being taken, involving trading standards, the police, and funding from the Department for Business, Innovation and Skills goes in to support the unit.”<sup>143</sup>

176. Rydym yn cefnogi i’r carn y gwaith amrywiol a wneir gan Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru ac yn ei groesawu, ac rydym o’r farn ei bod yn hollbwysig iddi barhau â’i gwaith, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a Llywodraeth y DU i godi ymwybyddiaeth o fenthycy arian yn anghyfreithlon ac effaith niweidiol hyn ar deuluoedd a chymunedau. Fel rhan o hyn, rhagwelwn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod rôl amhrisiadwy Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru yn parhau ac yn cael ei datblygu.**

---

<sup>142</sup> CC(3) FI 31

<sup>143</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 8 Gorffennaf 2010, Para 167



## Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc>

### 22 Ebrill

Les Cooper, Cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru  
Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Wales and West

### 20 Mai

Katija Dew, Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol, Cymru  
Tîm Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru

John Puzey, Cyfarwyddwr  
Rhian Jones, Cydlynnydd Addysg  
Kath Dobie, Rheolwr Prosiectau  
Shelter Cymru

Lee Phillips, Rheolwr Gallu Ariannol Cymru  
Chris Pond, Cyfarwyddwr Gallu Ariannol ac Uwch Gyngorydd yn yr FSA  
Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Chorff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB)

### 10 Mehefin

Clare Williams, Swyddog Cynhwysiant Ariannol  
Nick Bennett, Prif Swyddog Gweithredol  
Cartrefi Cymunedol Cymru

Jayne Wynn, Rheolwr Gallu Ariannol yng Nghanolfan Cyngor ar Bopeth Powys a Chydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru  
Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru

## **24 Mehefin**

Mark Lyonette, Prif Weithredwr      Cymdeithas Undebau Credyd Prydain

Fran Targett, Cyfarwyddwr  
Cymru      Canolfannau Cyngor ar Bopeth

## **8 Gorffennaf**

Llywodraeth Cymru

Carl Sargeant, Y Gweinidog  
dros Gyfiawnder Cymdeithasol  
a Llywodraeth Leol  
Lynne Schofield, Pennaeth yr  
Uned Cynhwysiant Ariannol

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm>

| <b>Enw</b>   | <b>Sefydliad</b>   | <b>Cyfeirnod</b> |
|--|--|------------------|
| Ian Ross, Rheolwr Polisi a Datblygu                                | Rathbone Cymru   | FI 01            |
| Leighton Hughes, Hyfforddai Cymunedol                              | Cymdeithas Tai Rhondda   | FI 02            |
| Les Cooper, Cydlynnydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru         | Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Wales and West         | FI 03            |
| Zoë Brewis, Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth                           | Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr   | FI 04            |
| David Leron, Cyfarwyddwr Cymru                                     | Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr                                | FI 05            |
| Pam Boyd, Cyfarwyddwr Gweithredol                                  | ContinYou Cymru  | FI 06            |
| Dr. Claes Belfrage<br>Dr. Alan Finlayson                           | Prifysgol Abertawe   | FI 07            |
| Katija Dew, Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol Cymru                   | Tîm Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru | FI 08<br>AWE 01  |
| Anita Myfanwy, Swyddog Datblygu Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru | Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a gydlynir gan Plant yng Nghymru          | FI 09            |
| Jackie Dix, Rheolwr Polisi ac Ymchwil Dros Dro                     | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili   | FI 10            |

|   |  |                                    |
|---|--|------------------------------------|
| Jon Brenchley,<br>Pennaeth<br>Rhanbarthol<br>Materion<br>Corfforaethol,<br>Cymru                          | Barclays   | FI 11                              |
| Rhian Jones,<br>Cydllynydd Addysg<br>Graeme Francis,<br>Pennaeth Polisi a<br>Materion Cyhoeddus           | Shelter Cymru<br>Age Cymru   | FI 12<br>AWE 02<br>FI 13           |
| Lindsey Kearton,<br>Uwch Eiriolwr Polisi  | Llais Defnyddwyr Cymru   | FI 14                              |
| Jan Owen, Swyddog<br>Datblygu (Mentora<br>Cyflogwyr)<br>Tîm Busnes Addysg                                 | Gyrfaoedd Gogledd<br>Ddwyrain Cymru a<br>Debtcred                      | FI 15                              |
| Fran Targett,<br>Cyfarwyddwr<br>Cyngor ar Bopeth<br>Cymru   | Cyngor ar Bopeth Cymru   | FI 16<br>AWE 06, 6a,<br>6b, 6c, 6d |
| Helen Roach,<br>Swyddog Datblygu  | National Energy Action<br>(NEA) Cymru                                  | FI 18<br>FI 19                     |
| Mary Sherwood,<br>Swyddog<br>Ymgyrchoedd a<br>Datblygu  | Grŵp Llywio Cynhwysiant<br>Ariannol Abertawe                           | FI 21                              |
| Linda Pritchard,<br>Swyddog Polisi<br>Cymru   | YWCA Cymru a Lloegr  | FI 20                              |
| Clare Williams,<br>Swyddog<br>Cynhwysiant<br>Ariannol<br>Lee Phillips, Rheolwr<br>Gallu Ariannol<br>Cymru | Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Corff Addysg Ariannol<br>Defnyddwyr (CFEB) | FI 22<br>AWE 07 a 07a              |
| Matt Bland,<br>Cynorthwydd Polisi<br>a Chyfathrebu  | ABCUL – Cymdeithas<br>Undebau Credyd Prydain                           | FI 23                              |

|   |  |       |
|---|--|-------|
| Richard Jones<br>Abbas, Rheolwr<br>Gwrth-dlodi a<br>Hawliau Lles  | Gwasanaethau<br>Cymdeithasol Sir Ddinbych                    | FI 24 |
| Anthea Hogg,<br>Rheolwr<br>Gwasanaethau<br>Tenantiaeth  | Cymdeithas Tai Clwyd Alun                                    | FI 25 |
| Llinos Evans,<br>Swyddog<br>Partneriaeth a<br>Pholisi   | Cyngor Sir Caerfyrddin                                       | FI 26 |
| Matt O'Grady,<br>Swyddog Polisi ac<br>Ymgyrchoedd<br>(Cymru)  | Scope Cymru  | FI 27 |
| Jayne Wynn, Rheolwr<br>Gallu Ariannol yng<br>Nghanolfannau<br>Cyngor ar Bopeth<br>Powys a Chydlynedd<br>Fforwm Gallu<br>Ariannol<br>Canolbarth, De a<br>Gorllewin Cymru | Fforwm Gallu Ariannol<br>Canolbarth, De a Gorllewin<br>Cymru | FI 28 |
| Barry Williams<br>Swyddog Cymorth<br>Gweinyddol   | Cymdeithas Llywodraeth<br>Leol Cymru                         | FI 29 |
| Carl Sargeant, y<br>Gweinidog dros<br>Gyfiawnder<br>Cymdeithasol a<br>Llywodraeth Leol  | Llywodraeth Cymru  | FI 30 |
| Steven Hay, Rheolwr<br>Gweithredol<br>(Gwasanaethau<br>Defnyddwyr)  | Prosiect Benthycu Arian yn<br>Anghyfreithlon                 | FI 31 |

Rod Mckee,  
Pennaeth Gallu  
Ariannol

|   |        |
|---|--------|
| Ysgol Gyllid IFS  | FI 32  |
| Nodyn ar ymweliad Aelodau<br>â Siop Wybodaeth<br>Garnlydan                          | AWE 03 |
| Nodyn ar ymweliad Aelodau<br>ag Ysgol Bryn Gwalia                                   | AWE 04 |
| Nodyn ar ymweliad Aelod<br>ag Ysgol Y Berwyn  | AWE 05 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>gan y Gweinidog dros<br>Blant, Addysg a Dysgu<br>Gydol Oes | AWE 08 |
| Nodyn ar ymweliad Aelodau<br>â Chanolfan Cyngor ar<br>Bopeth Abertawe               | AWE 09 |

## **Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 'Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol' gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

### **Crynodeb Gweithredol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 'Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol'.

Mae'r ymchwiliad hwn ac adroddiadau'r Pwyllgor a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amserol iawn, wrth gwrs. Yn y cyfnod arbennig o anodd hwn mae pobl Cymru, yn fwy nag yn unrhyw le arall, yn wynebu toriadau na welwyd eu tebyg o'r blaen gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – toriadau y bydd pobl sydd eisoes yn fregus yn teimlo'u heffaith fwyaf yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Mae angen i ni fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae hyn yn eu creu. Rydym wedi cychwyn yn gryf gyda'n Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, ac mae llawer eisoes wedi cael ei gyflawni wrth ddarparu amrywiaeth fawr o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, gyda chefnogaeth ddarparu gwasanaethau addysg a chynghor ariannol sy'n hawdd eu cael ac yn ddi-dâl, i bawb sy'n byw yng Nghymru, ond yn enwedig i'r rheiny sydd eisoes wedi'u hallgau'n ariannol ac sydd eisoes ar ymylon y gymdeithas.

Bydd grymoedd allanol y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, megis yr economi a phenderfyniadau cyllidebol a pholisi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn parhau i roi prawf ar ein penderfyniad a'n hymrwymiad i sicrhau cynhwysiant ariannol, a rennir gyda'n partneriaid yng Nghymru, y byddwn yn parhau i gydweithio â hwy.

Isod mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi ei hymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, i bwysleisio, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, fod y ddarpariaeth addysg ariannol yn bwysicach nag erioed, ac y dylid defnyddio cyllid fel y gellir cyflwyno gwasanaeth *Moneymadeclear* y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB) fesul cam.

### **Ymateb: Derbyn**

**Sylw:** Byddwn yn parhau i drafod pwysigrwydd addysg a gallu ariannol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr. Rydym yn gwybod am y cynigion presennol i ariannu cyflwyno gwasanaeth *Moneymadeclear* fesul cam trwy ardoll y CFEB ar sefydliadau ariannol a byddwn yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig bod hwn yn gynnig ymarferol a fydd yn ddarparu'r gwasanaeth hawdd ei gael ac o ansawdd da yr oedd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddo.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Comisiynydd y Gymraeg (ar ôl i Fesur y Gymraeg sefydlu'r swydd) i ymgysylltu â darparwyr addysg ariannol, i'w hannog i sicrhau y darperir cyngor ar arian yn Gymraeg, yn ogystal ag mewn ieithoedd eraill.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

**Sylw: Rydym yn cytuno y bydd gan Gomisiynydd y Gymraeg (pan gaiff y swydd ei sefydlu, ac os bydd Mesur arfaethedig y Gymraeg yn cael ei gymeradwyo) ran bwysig i'w chwarae, er ei bod yn bwysig cydnabod y bydd y Comisiynydd yn annibynnol ac y bydd yn penderfynu ar ei weithgareddau, amserlenni a blaenoriaethau ei hun. Hefyd cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hybu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg, er enghraifft trwy delerau ac amodau trefniadau ariannu gyda darparwyr a byddwn yn adolygu ein rôl yn hyn o beth.**

Rydym wedi trefnu i nifer o adnoddau addysgu fod ar gael yn ddwyieithog lle mae ymarferwyr wedi cytuno y byddai'r deunyddiau'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol mewn ysgolion. Hefyd, mae Uned Addysg Ariannol Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector gwasanaethau ariannol. Mae'r Uned yn rhoi cyngor ar ddatblygu deunyddiau er mwyn iddynt fod yn gyson â'r cwricwlwm yng Nghymru a hefyd yn sicrhau bod partneriaid yn gwybod am anghenion ysgolion sy'n gweithio'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Goblygiadau ariannol: Dim yn nhermau adolygu telerau ac amodau cyllid. Mae'r Gyllideb Addysg eisoes yn darparu ar gyfer comisiynu deunyddiau Gymraeg i'r ystafell ddsbarth.**

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo'n gyhoeddus y bydd yn ceisio sicrhau bod swyddogaeth strategol Uned Addysg Ariannol Cymru yn cael ei chynnal a'i datblygu i helpu i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.

**Ymateb: O dan ystyriaeth**

**Sylw: Cytunwyd y câi Uned Addysg Ariannol Cymru ei sefydlu, am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau. Bydd y cynnydd a wnaethpwyd yn y cyfnod hwnnw a'r achos i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi mwy o gefnogaeth i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion yn cael eu hystyried ar ddiwedd y ddwy flynedd, ym mis Ebrill 2011, ac yng ngoleuni'r gwerthusiad cyfredol o waith yr Uned.**

**Goblygiadau ariannol: £240,000 yw cost darparu Uned Addysg Ariannol Cymru yn 2010-11 yn y Gyllideb Addysg. Mae hyn yn cynnwys £140,000 a ddarperir gan y CFEB a ddaw i ben ym mis Mawrth 2011. Byddai angen i gostau unrhyw gefnogaeth arall i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion gael eu hystyried ochr yn ochr â phwysau eraill yn y Gyllideb Addysg.**



Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu canolfan ganolog o wybodaeth am brosiectau gallu ariannol, a fyddai'n darparu canllawiau ar fonitro a gwerthuso wrth lunio a gweithredu prosiectau a gwasanaethau newydd. Rhagwelwn y byddai hyn hefyd yn cynnwys cyfeiriadur o adnoddau cyfredol sy'n cael eu hystyried yn addas i ysgolion eu defnyddio wrth ddarparu addysg ariannol. Rhagwelwn y byddai hyn yn hwyluso'r broses o rannu arferion da, a byddai hefyd yn galluogi ysgolion i nodi a meithrin cysylltiadau â darpar bartneriaid yn gyflym er mwyn darparu addysg ariannol yn eu hardaloedd lleol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

**Sylw: Rydym yn cytuno bod angen ymagwedd gydgyssylltiedig at allu ariannol ac at rannu arferion da. Mae angen i ni gofio costau menter o'r fath, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn pan fo cyllid y sector cyhoeddus yn wynebu pwysau sylweddol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn trafod y potensial ar gyfer y gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n bartneriaid.**

Rydym eisoes wedi cytuno mai Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru fydd yn lletya safle mewnwyd i gefnogi darparu addysg ariannol mewn ysgolion. Bydd y safle'n cynnwys manylion deunyddiau addysgu ac adnoddau i'r ystafell ddosbarth ar gyfer addysg ariannol. Bydd hefyd yn cynnwys arferion da gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector gwasanaethau ariannol wrth ddarparu addysg ariannol. Hefyd, rydym yn rhoi canllawiau i ysgolion ar ddarparu addysg ariannol. Bydd y rhain yn cynnwys manylion adnoddau addysgu a phartneriaid lleol a chenedlaethol sy'n fodlon cefnogi addysg ariannol mewn ysgolion.

**Goblygiadau ariannol: Heb ei gostio yn nhermau gallu ariannol ehangach, byddai angen rhagor o waith i gostio'r cynnig hwn. Byddai angen ystyried unrhyw ymrwymiad ariannol ochr yn ochr â phwysau eraill yng Nghyllideb yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Yn nhermau safle mewnwyd Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru, darperir am hyn eisoes yn y Gyllideb Addysg.**

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, drwy fforymau fel y grŵp llywio cynhwysiant ariannol, ac ar y cyd â Llywodraeth y DU, yn annog sefydliadau ariannol i ddarparu cronfeydd i sefydliadau annibynnol fel y gallant gynnal rhaglenni addysg ariannol.

**Ymateb: Derbyn.**

**Sylw: Rydym yn cytuno bod yna ddyletswydd ar sefydliadau ariannol i sicrhau bod eu cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol o'r rhwymedigaethau y maent yn ymrwymo iddynt ac, yn fwy cyffredinol, bod ganddynt ddealltwriaeth well o faterion ariannol yn eu crynswth. Mae llawer o sefydliadau ariannol yn bodloni'r ymrwymiad hwn trwy eu hardoll i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n cefnogi gwaith y CFEB a thrwy eu rhaglenni cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol eu hunain. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o hyblygrwydd wrth alinio'r gwaith hwn a byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn trwy'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol.**

**Goblygiadau ariannol: Dim**

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chyflogwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat i'w hannog i hwyluso cyfranogiad eu gweithwyr cyflogedig mewn seminarau addysg ariannol yn y gweithle, ac wrth dderbyn adnoddau addysg ariannol.

**Ymateb: Derbyn.**

**Sylw: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi menter gweithleoedd CFEB yn llwyr ac mae wedi rhoi cyfleoedd i'w staff fynychu seminarau 'Making the Most of Your Money' yn y gweithle, ac yn ddiweddar dosbarthodd arweiniadau CFEB i holl staff Llywodraeth y Cynulliad.**

**Rydym wedi bod yn gweithio gyda CFEB (a chyn hynny gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) ers mwy na 3 blynedd i hyrwyddo seminarau yn y gweithle i amrywiaeth o gyflogwyr. Bu hyn yn llwyddiant ysgubol, ac mae CFEB wedi cyrraedd mwy na 100,000 o bobl yng Nghymru gyda'r llyfrynnau 'Making the Most of Your Money', trwy fwy na 100 o wahanol gyflogwyr ac wrth i 4,700 o bobl fynychu'r cyflwyniadau.**

**Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy a byddwn yn gweithio gyda CFEB i ddyblu ein hymdrechion yn y maes hwn.**

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ledled Cymru i dynnu sylw at werth trawsbynciol mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol cyfredol. Rhagwelwn y byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o hyn, yn annog awdurdodau a chymdeithasau tai unigol i nodi unigolion sy'n gweithio ar lefel uwch fel rhai a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynhwysiant ariannol a'r gwaith ar addysg ariannol, ar draws yr awdurdod/y gymdeithas.

**Ymateb: Derbyn.**

**Sylw: Rydym yn gweithio'n agos gyda Thîm Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol Cymru, sy'n gweithio'n strategol ac ar lefel lleol. Mae elfen strategol y gwaith hwn yn ceisio effeithio ar ymrwymiad, gwerthoedd a pholisi'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda phobl sydd o dan anfantais oherwydd allgau ariannol, ac yn byddo'n uniongyrchol i elfen cyflenwi lleol a rhanbarthol y prosiect.**

**Er hyn, hoffem weld mwy o ymrwymiad strategol gan awdurdodau lleol a byddwn yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr i fynd ar ôl hyn.**

**Mae Uned Addysg Ariannol Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i gefnogi addysg ariannol mewn ysgolion. Rhagwelir y bydd yr Uned wedi cyflenwi 24 sesiwn hyfforddi mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol erbyn diwedd mis Mawrth 2011.**

**Goblygiadau ariannol: Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu, ynghyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, at ariannu Tîm Cynhwysiant Ariannol Cymru. Mae'r arian hwn i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2011 a byddai angen i unrhyw ymrwymiad ariannol parhaus gael ei ystyried ochr yn ochr â phwysau**

**eraill yng Nghyllideb yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Darperir ar gyfer Uned Addysg Ariannol Cymru yn y Gyllideb Addysg.**

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ariannol yn elfen orfodol o'r fframwaith ABCh, a'i bod yn adolygu'r pwyslais a roddir ar addysg ariannol yn rheolaidd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

**Sylw:** Eisoes mae cyfrifoldeb statudol gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru i ddarparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol eang a chytbwys i bob disgybl o oedran ysgol gorfodol. Yn y ddogfen anstatudol *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, a ddefnyddir yn helaeth mewn ysgolion, mae addysg ariannol yn elfen allweddol i ddysgwyr 7 i 16 oed. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag allgau ariannol. Er enghraifft, dylid rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 14 i 16 oed ddeall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a sut i gael cyngor ariannol. Mae addysg bersonol a chymdeithasol, fel yr holl agweddau eraill ar y cwricwlwm ysgol, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

**Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Darperir ar gyfer monitro ac adolygu'r cwricwlwm ysgol yn y Gyllideb Addysg.**

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwahodd Estyn i ystyried a yw safonau'r addysg ariannol a ddarperir mewn ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth drwy asiantaethau allanol, yn cael eu hyrwyddo a'u monitro'n ddigonol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

**Sylw:** Mae addysg ariannol yn cael ei chynnwys yn y ddarpariaeth ar gyfer Mathemateg ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn y cwricwlwm ysgol. Yn unol â gofynion y Fframwaith Arolygu Cyffredin, mae arolygiadau Estyn yn asesu'r ddarpariaeth a wneir gan ysgolion, gan gynnwys barnu i ba raddau mae profiadau dysgu'n cynnwys yr holl gwricwlwm ysgol yn effeithiol. Mae arolygiadau hefyd yn ystyried pa mor dda mae ysgolion yn cydweithredu â phartneriaid i ddarparu rhaglenni cydlynus a dewisiadau. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn comisiynu Estyn i wneud nifer o astudiaethau thematig trawsbynciol. Mae'r gwaith cyfredol yn cynnwys llunio adroddiad erbyn mis Mai 2011 ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd yr achos dros ragor o adroddiadau thematig ar addysg ariannol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal ymgyrch barhaus yn y cyfryngau i gynorthwyo pobl i ddeall manteision cynhwysiant ac addysg ariannol, a sut y gallant ddefnyddio gwasanaethau cymorth ac ariannol (gan gynnwys cyfrifon banc sylfaenol ac yswiriant cynnwys cartref) yn lleol, drwy weithio gyda rhanddeiliaid ar lefelau lleol a chenedlaethol.

**Ymateb: Gwrthod.**

**Sylw:** Er y cydnabyddir bod codi ymwybyddiaeth yn agwedd bwysig ar sicrhau newid i ymddygiad, mae angen ystyried yn ofalus cyn buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus mewn unrhyw fath o ymgyrch yn y cyfryngau yn yr hinsawdd sydd ohoni. Yn lle hynny, byddwn yn parhau i weithio gyda CFEB, yr Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol ac Uned Addysg Ariannol Cymru, gan ddefnyddio eu hadnoddau rhagorol i dargedu cyflogeion, myfyrwyr a darpar rieni, ymhlith eraill, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o faterion ariannol.

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â banciau'r stryd fawr er mwyn iddynt feithrin agwedd fwy cadarnhaol tuag at agor cyfrifon banc sylfaenol.

**Ymateb: Derby.**

**Sylw:** Mae'r gallu i gael gwasanaethau ariannol prif ffrwd yn dal i fod yn un o'r heriau mawr wrth fynd i'r afael ag allgau ariannol ac mae'r safbwynt hwn wedi cael ei gefnogi gan ymrwymiad y Llywodraeth Glymblaid newydd i wella gallu defnyddwyr, yn benodol teuluoedd ar incwm bach, i gael gwasanaethau bancio. Mae llawer o'r gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud yn y maes hwn wedi bod y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth y Cynulliad ond rydym wedi gweithio'n agos â'r Trysorlys ar nifer y bobl sy'n agor cyfrifon banc sylfaenol ac â LINK ar gyflwyno peiriannau arian parod y gellir eu defnyddio'n ddi-dâl yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â banciau'r stryd fawr a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i annog pobl i agor cyfrifon banc sylfaenol a'u defnyddio'n rheolaidd.

At hynny, ni fydd darparu cyfrifon cyfredol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ond os yw unigolion yn gallu eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac yn ddigon hyderus i wneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda CFEB ar ddarparu "Arweiniad ar Arian" (Money Guidance) i gynorthwyo unigolion i wella eu gallu ariannol sylfaenol.

Dylid hefyd ystyried darparwyr amgen sy'n cynnig gwasanaethau a chynhyrchion ariannol, megis Undebau Credyd sy'n gweithredu eu cyfrifon cyfredol neu gyllidebu er mwyn rhoi dewisiadau hawdd eu rheoli i bobl. Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad a thwf undeb credyd cynaliadwy, a all ddarparu'r gwasanaethau hyn i holl ddinasyddion Cymru. Ar 14 Medi cyhoeddus gyllid newydd gwerth £3.4 miliwn i gefnogi undebau credyd yng Nghymru hyd at ddiwedd 2013. Mae hyn yn cynnwys £1.6 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad ac £1.8 miliwn gan WEFO.

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a gwasanaethau cyngor y trydydd sector i sicrhau dull rhagweithiol o alluogi pobl i fanteisio ar fudd-daliadau. Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl y gwyddom sydd ag ôl-ddyledion rhent a/neu dreth gyngor yn cael eu cyfeirio at wybodaeth am y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, ond nad ydynt yn eu hawlio.

**Ymateb: Derbyn.**

**Sylw: Byddwn yn parhau i ariannu amrywiaeth o fentrau manteisio ar fudd-daliadau gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb y mae arnynt angen cymorth i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael.**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r galw cynyddol am wasanaethau cyngor oedd darparu cyllid i nifer o fentrau a fydd yn helpu i gefnogi a symleiddio'r ffordd y darperir gwasanaethau yng Nghymru. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2009, rhoesom £747,000 i Gyngor ar Bopeth Cymru i sefydlu Llinell Gyngor ag un rhif, sydd bellach yn gwbl weithredol ac yn darparu gwasanaeth rhagorol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda CFEB i hyrwyddo'r gwasanaeth Arweiniad ar Arian (Money Guidance), a fydd yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl ganfod budd-daliadau priodol.**

**Mae cydweithio fel hyn yn helpu i gryfhau'r rhwydwaith cyngor wrth iddo wynebu pwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen yn wyneb y sefyllfa economaidd bresennol. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y bydd cydweithio a syniadau llawn dychymyg fel hyn yn cyfrannu at gyflawni mwy gyda llai wrth i gyllid cyhoeddus ddod o dan bwysau cynyddol.**

**Goblygiadau ariannol: Oddeutu £2 miliwn y flwyddyn o'r gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.**

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a Llywodraeth y DU i godi ymwybyddiaeth o fenthycy arian yn anghyfreithlon ac effaith niweidiol hyn ar deuluoedd a chymunedau. Fel rhan o hyn, rhagwelwn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod rôl amhrisiadwy Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru yn parhau ac yn cael ei datblygu.

**Ymateb: Derbyn.**

**Sylw: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'n llwyr y gwaith hollbwysig mae'r Uned Benthycy Arian yn Anghyfreithlon yn ei wneud ledled Cymru.**

**Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gefnogi'r Uned Benthycy Arian yn Anghyfreithlon ar draws y Deyrnas Unedig ac y bydd gan Uned Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ac ehangu ei swyddogaethau er mwyn helpu mwy o bobl i ddianc rhag ofn a brawychiad gan fenthycwyr arian didrwydded.**

**Rydym yn addo parhau i gefnogi'r Uned a gweithio gyda hwy i gyflawni eu swyddogaethau, yn ogystal â chefnogi gwaith gydag undebau credyd i hyrwyddo credyd fforddiadwy fel ffordd o fenthycy arian yn hytrach na throi at fenthycwyr arian didrwydded.**

**Goblygiadau ariannol: Dim**